Llywodraeth EF

# Strategaeth Diogelwch Gwladol 2025

## Diogelwch i bobl Prydain mewn byd peryglus



CP 1338

Mehefin 2025

# Strategaeth Diogelwch Gwladol 2025

## Diogelwch i bobl Prydain mewn byd peryglus

Cyflwynwyd i Senedd y Deyrnas Unedig gan y Prif Weinidog ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Mehefin 2025

CP 1338

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn https://www.gov.uk/guidance/contact-the-cabinet-office.

ISBN 978-1-5286-5722-8

E03360428 06/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair y Prif Weinidog** **4**

**Rhagarweiniad** **8**

**Y Cyd-destun Strategol: Byw mewn cyfnod o ansicrwydd radical** **14**

Gwrthdrawiad 16

Cystadlu 17

Cydweithredu 18

**Fframwaith Strategol** **20**

Piler (i) – Diogelwch Domestig 21

Adran (1) – Amddiffyn ein tiriogaeth 22

Adran (2) – Gwneud y DU yn darged anoddach 25

Adran (3) – Cryfhau gwydnwch i fygythiadau yn y dyfodol 27

Piler (ii) – Cryfder Dramor 29

Adran (1) – Cryfhau ein diogelwch cyfunol 30

Adran (2) – Adnewyddu a dyfnhau ein cynghreiriau 33

Adran (3) – Datblygu perthnasoedd newydd mewn meysydd newydd 35

Piler (iii) – Cynyddu galluoedd sofran a thactegau anghonfensiynol 41

Adran (1) – Ail-adeiladu sylfaen diwydiannol ein sector amddiffyn 42

Adran (2) Adnabod, meithrin a gwarchod galluoedd sofran eraill 44

Adran (3) – Sicrhau mantais dactegol 46

**Casgliad** **51**

# Rhagair y Prif Weinidog




Diogelwch Gwladol yw cyfrifoldeb cyntaf a di-newid unrhyw lywodraeth. Ond wrth i'r byd newid, rhaid i'r ffordd y cyflawnwn y cyfrifoldeb hwnnw newid hefyd. Ac mae'r byd wedi newid. Mae treisgarwch Rwsia'n bygwth ein cyfandir. Mae cystadlu strategol yn dwysáu. Ac ideolegau eithafol ar gynnydd. Mae technoleg yn trawsnewid natur rhyfel a diogelwch domestig. Mae gwledydd gelyniaethus yn gwneud niwed i'n gwlad. Mae'n gyfnod o ansicrwydd radical, a rhaid i ni ei wynebu gyda pharodrwydd, yn ddi-oed a llygad clir ar ein buddiannau gwladol. Mae cadw pobl Prydain yn ddiogel yn mynnu ar hyn. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein strategaeth.

Rydyn ni wedi ein tywys gan ein gwerthoedd a'n hanes. Mae'r Deyrnas Unedig yn un o'r gwledydd wnaeth sefydlu NATO a dw i'n hynod falch mai llywodraeth Lafur a chwaraeodd rôl yn ei greu. Rydyn ni'n hyrwyddwr balch o ddiogelwch cyfunol ein cyfandir a thu hwnt. Ochr yn ochr â'n cynghreiriaid, rydyn ni wedi dangos mai cryfder yw'r unig ymateb effeithiol ar ôl i ormeswyr fel Putin. A safwn yn ddiedifar dros ryddid, democratiaeth a rhyngwladoldeb.

Mewn byd sy'n ymosod ar y gwerthoedd hyn, mae ein penderfyniad mor bwysig ag erioed. Mae cydweithredu er budd ein gwlad; a rhaid i ni ddyfnhau ein cynghreiriau. Dyna pam dw i wedi bod mor benderfynol o gywiro statws rhyngwladol y Deyrnas Unedig. Cafodd ein henw da fel partner sefydlog ei niweidio gan anrhefn y llywodraeth flaenorol. Rydyn ni wedi ei adfer oherwydd mae'n hanfodol i'n diogelwch gwladol.

Ond eto, o'r cyfnod o drawsnewid mawr ar ôl y rhyfel, dylen ni hefyd gofio tair gwers sy'n sylfaenol i'n diogelwch gwladol heddiw.

Yn gyntaf, y dylai polisi tramor fod yn uniongyrchol atebol i bryderon y werin. Wedi'r cwbl, mae'r heriau a wynebwn eisoes yn effeithio ar eu bywydau. Mae rhyfeloedd yn cynyddu eu biliau. Ac ymosodiadau seiber yn tanseilio eu gwasanaethau cyhoeddus. Mae troseddwyr yn smyglo ymfudwyr anghyfreithlon ar draws ein ffiniau. Mae'r wers yn glir: i ddarparu fy Nghynllun dros Newid, rhaid i ni ddod â pholisi tramor a domestig at ei gilydd.

Yn ail, bod ein cyd-ddiogelwch dan arweiniad NATO'n parhau i fod yn un o gonglfeini ein strategaeth. Mae ein cynghreiriau'n gadarn o hyd, ond i sicrhau eu hiechyd parhaus a'n buddiannau gwladol, rhaid cynyddu'r cryfderau gwladol sy'n angori ein diogelwch gwladol.

Yn drydydd, bod gwledydd ar eu cryfaf o fod wedi eu rhwymo gan bwrpas cyffredin. Nid oes ond rhaid edrych ar ein byd ni heddiw a'r heriau diogelwch a wynebwn i ddeall bod angen dim llai nag undod gwladol. Felly nid yw mwyach yn ddigon rheoli risg, neu ymateb i amgylchiadau newydd. Rhaid i ni hefyd bellach fyddino pob rhan o gymdeithas tuag at ymdrech wladol gyfunol.

Dyna'r syniad sy'n gyrru'r strategaeth hon – rhaid i ni weithredu mewn ffordd galetach a mwy craff. Mae'n golygu gweld safonau byw uwch fel un o amcanion hanfodol ein diogelwch gwladol. Mae'n golygu adfer diogelwch i'n ffiniau fel prawf creiddiol o degwch a chydlyniant cymdeithasol. Mae'n golygu manteisio ar ein mantais gymharol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i greu cyfleoedd newydd i weithwyr, a rhoi ein hunain ar flaen y gad yn y maes seiber-amddiffyn. Hefyd, mae'n golygu bod angen cryfhau ein diogelwch domestig yn wyneb bygythiadau cynyddol a mwy cymhleth. Nid yn unig o ran terfysgaeth yn ei ystyr draddodiadol, er bod hyn yn fygythiad o hyd. Ond hefyd drwy gryfhau ein hymateb i'r her gynyddol o unigolion sy'n rhoi eu bryd ar drais, a therfysgwyr ar eu liwt eu hunain.


Ond efallai mai goblygiadau mwyaf y newid strategol yma yw i'n hamddiffyniad gwladol. Ers dod i rym, mae'r llywodraeth yma wedi ymateb i'r twf mwyaf mewn cenhedlaeth o ran bygythiadau i'n diogelwch gyda'r buddsoddiad mwyaf yn ein hamddiffyniad ers y Rhyfel Oer. Ond eto mae hefyd yn glir bod yn rhaid gwneud mwy fyth os am gadw ar y blaen i'n gwrthwynebwyr a chryfhau NATO. Dyna pam, fel rhan o'r strategaeth hon, y gwnawn ymrwymiad hanesyddol i wario 5% o'n GDP ar ddiogelwch gwladol erbyn 2035.

Dylen ni weld hyn fel cyfle. Dw i wedi dadlau ers tro byd bod materion fel sicrwydd ynni'n hanfodol i'n diogelwch gwladol. Yn y cyfamser, mae buddsoddi yn ein gwydnwch economaidd ehangach yn amlwg yn rhan greiddiol o'n hamddiffyniad, yn ogystal â'n cenhadaeth i ddarparu twf sy'n gwella safonau byw pobl Prydain. Roedd y ddadl hon yn ein maniffesto, yn yr Adolygiad Amddiffyn Strategol diweddar ac mae hefyd yn dylanwadu'n gynyddol ar feddylfryd ein cynghreiriaid yn NATO. Felly bydd y Deyrnas Unedig, fel y gwnaeth

erioed, yn ymrwymo mwy fyth i gwrdd â'i rhwymedigaethau i NATO ond byddwn hefyd, yr un mor bwysig, yn defnyddio'r addewid hwn i adnewyddu ein contract cymdeithasol.

Dw i'n gwbl grediniol y gallwn wneud hyn. Gallwn ryddhau 'difidend amddiffyn' fydd yn adnewyddu cymunedau diwydiannol ar hyd a lled y wlad. Gallwn greu'r gwaith, y twf a'r cyflogau sydd ei angen i ddod â'r wlad at ei gilydd, dan arweiniad fy Nghynllun dros Newid. A gallwn hefyd uno cymdeithas y tu ôl i ddadl syml bod diogelwch economaidd yn mynd law yn llaw â diogelwch gwladol.

Mae cryfder ar y llwyfan rhyngwladol wedi bod yn hanfodol erioed i'n diogelwch gwladol. Gallwch nawr ddefnyddio diogelwch gwladol i gryfhau ein gwlad.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr Keir Starmer AS**
Y Prif Weinidog



Chwifio baneri ar hyd y Mall yn ystod gorymdaith a sioe awyr Dathlu Diwrnod VE 80 yn Llundain.

# Rhagarweiniad

1. Diogelwch gwladol yw cyfrifoldeb cyntaf y llywodraeth a sylfaen ein ffyniant a ffordd o fyw, ynghyd â ffiniau diogel ac economi sefydlog. Mae'n golygu amddiffyn pobl Prydain, hyrwyddo buddiannau Prydeinig a gwneud y wlad yn gryfach, yn fwy sofran a mwy cystadleuol yn y tymor hir.

2. Ond mae gwarchod y DU a hyrwyddo buddiannau Prydeinig yn dod yn fwyfwy anodd. Mae'r bygythiadau ar gynnydd. Rydyn ni mewn cyfnod lle'r ydym yn debygol o wynebu **dod i wrthdrawiad anuniongyrchol, ac efallai uniongyrchol, â'n gwrthwynebwyr, cystadlu strategol yn dwysáu** – gan gynnwys rôl gynyddol arfau niwclear ym mholisïau a dulliau meddwl a gweithredol ein gwrthwynebwyr – ac **ailnegodi radical ar y telerau yr ydyn ni'n cydweithredu** â'n cynghreiriaid a phartneriaid eraill, gyda goblygiadau sylweddol i sut a ble y buddsoddwn ein hadnoddau.

3. Rhaid i'r DU felly addasu ei ffordd o feddwl am ddiogelwch gwladol wrth ymateb i newidiadau syfrdanol yn y byd o'n cwmpas, ac i'r bygythiadau cynyddol yn ein gwlad ein hunain ac mewn seiber-ofod. Gallai penderfyniadau a wneir yn y blynyddoedd nesaf – ar fudo anghyfreithlon, dyfodol Wcráin, diogelwch yr Ewro-Iwerydd, y Dwyrain Canol, yr Indo-Basiffig ac ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg – adleisio ar draws gweddill y degawd hwn a thu hwnt. Bydd sut y gallwn ddiogelu'r cyhoedd ar y strydoedd ac ar-lein, amddiffyn ein democratiaeth a chynhyrchu twf economaidd, ar brawf. Mae felly'n hanfodol wynebu'r blynyddoedd i ddod gyda dealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun strategol a gydag eglurder ynghylch beth ydyn ni'n *ceisio* ei gyflawni a beth *allwn* ei gyflawni.

4. Pwrpas y *Strategaeth Diogelwch Gwladol 2025: Diogelwch i Bobl Prydain mewn Byd Peryglus* (NSS 2025) yw: adnabod y prif heriau a wynebwn fel gwlad mewn cyfnod o ansicrwydd radical; a chyflwyno **Fframwaith Strategol newydd** mewn ymateb i hynny, ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys tair elfen gydgysylltiol: (i) diogelwch domestig; (ii) cryfder dramor; a (iii) cynyddu galluoedd sofran a thactegau anghonfensiynol.

5. Mae NSS 2025 yn cyfuno'r gwahanol ffrydiau gwaith yn ymwneud â diogelwch gwladol sydd wedi bod ar waith ers etholiad cyffredinol 2024. Mae hyn yn cynnwys yr Adolygiad Amddiffyn Strategol (SDR), yr Adolygiad Diogelwch Strategol, Adolygiad AUKUS, y Strategaeth Gwydnwch, Archwiliad Tsieina, y Strategaethau Diwydiannol a Masnach a'r gwaith ar gadwyni cyflenwi, asesu cyfrin-wybodaeth, cymorth datblygu, pŵer meddal, deallusrwydd artiffisial (AI) a mantais dechnolegol. Er yn cydnabod pa mor ansicr yw'r byd heddiw a bod angen parhau i addasu, mae NSS 2025 wedi'i dylunio i bara drwy gydol cyfnod y Senedd hon.

6. Mae'r gwaith hwn yn fwy arwyddocaol fyth oherwydd ein haddewid yn Uwch-Gynhadledd NATO 2025 – ymrwymiad hanesyddol i wario 5% o GDP ar ddiogelwch gwladol. Mae hyn yn gynnydd cenhedlaeth yn ein gwariant ar amddiffyn a diogelwch gan danlinellu ein hymrwymiad i ddiogelwch gwladol ac anrhydeddu ein hymrwymiad i fod yn un o arweinwyr NATO. Fel yr ail economi fwyaf yn Ewrop a'r drydedd fwyaf yn NATO, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar gryfder ein cynghrair. Mae'r DU wedi dadlau ers tro byd bod angen i NATO ganolbwyntio mwy ar wydnwch gwladol yn ogystal â bygythiadau milwrol confensiynol. Rydym wedi gosod y sylfeini ar gyfer cyfnod amddiffyn newydd yn y SDR. Ond os na weithiwn i fod yn fwy cystadleuol a chynyddu ein cryfderau sofran – mewn meysydd creiddiol fel gwyddoniaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf – gallwn golli golwg ar sut i greu cyfoeth a llusgo ar ôl ein gwrthwynebwyr. Mae diogelwch gwladol yn golygu gymaint yn fwy heddiw nag o'r blaen – o iechyd ein heconomi, i brisiau bwyd, cadwyni cyflenwi, o ddiogelwch ar y strydoedd i'r byd ar-lein. Wrth i ni symud at 5%, rhaid i ni gynllunio ar gyfer sut y gallwn wneud y mwyaf o'r cyfle hwn i gryfhau ein gwlad. Dyna holl bwrpas NSS 2025.

7. Fel strategaeth gyfan, mae NSS 2025 yn gofyn **meddwl yn galetach a mwy craff am ddiogelwch gwladol** ar draws pob maes polisi, sydd eisoes i'w weld wrth i ni symud at fuddsoddi mwy mewn pŵer caled a phwyslais ar wneud ein lluoedd arfog yn fwy angheuol eu heffaith. Ochr yn ochr â hyn, rhaid bod yn **gwbl real a hollol ddiamheuol am y byd y gweithredwn ynddo**. Bydd y misoedd a'r blynyddoedd i ddod yn golygu cyfaddawdu ac aberthu anodd o ran dyrannu a blaenoriaethu adnoddau, amcanion byr a hir dymor ac, efallai, o ran gwerthoedd a buddiannau. Rydyn ni'n barod wedi gwneud y penderfyniad anodd i wario llai ar ddatblygu tramor fel y gallwn fuddsoddi mwy yn ein lluoedd arfog. Byddwn yn gorfod gwneud mwy o ddewisiadau caled wrth ddechrau gwario mwy ar amddiffyn a diogelwch gwladol.

8. Yn erbyn y cefndir hwn, mae NSS 2025 felly'n nodi bod angen **newid diwylliant mawr mewn llywodraeth i'n helpu i ymgodymu â'r cyfnod newydd sy'n ein hwynebu**. Bydd angen i ni fod yn **llai ymddiheurol a mwy systematig wrth warchod ein buddiannau gwladol**. Byddwn yn diffinio'r buddiannau hyn fel *diogelwch a lles cymdeithasol ac economaidd hirdymor pobl Prydain*.

9. Mae'n ddiymwad – a hynny ers degawdau lawer – mai'r ffordd orau o ofalu am fuddiannau Prydain yw drwy warchod diogelwch rhyngwladol a chydweithrediad amlochrog effeithiol ar bopeth o sefydlogrwydd economaidd i bolisi ynni. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd gydnabod bod llawer o bobl yn y DU yn teimlo'n agored iawn i effeithiau negyddol globaleiddio – fel dad-ddiwydiannu a mudo torfol – a bod y rheolau'n cael eu hanwybyddu, tanseilio neu wfftio gan eraill, er anfantais iddyn nhw. Bydd ateb y pryderon hyn yn rhan flaenllaw iawn o'n hagenda. Yn y cyfamser, wynebwn gyfnod lle y gallai fod angen i ni godi allan o'n cadair freichiau a chymryd camau mwy eithriadol os am gryfhau ein ffiniau, atal ac amddiffyn ein hunain rhag bygythiadau, ac ennill mantais dechnolegol a chyflawni ein hamcanion uwch o ran twf ac adnewyddu. Ni fydd gweithredu'n amlochrog a chreu a chryfhau ein sefydliadau felly'n ddigon. Mae angen i'n polisïau felly addasu i fyd lle y bydd cystadlu mwy chwyrn a dull mwy trafodiadol a chyfnewidiol o ddelio â mudo, amddiffyn, masnach, ynni, technoleg a deunyddiau crai.

10. Mae'n dilyn felly mai man cychwyn y llywodraeth wrth feddwl am ddiogelwch gwladol yw **adnabod, rhagweld, delio a datrys y peryglon i bobl Prydain ac i'n gwlad** (gan gynnwys y Tiriogaethau Tramor ac sy'n Ddibynnol ar y Goron). Mae'r ffocws hwn ar fygythiadau'n rhoi pwyslais arbennig ar rôl ein lluoedd arfog ac ar asiantaethau cyfrin-wybodaeth, diogelwch a gorfodi'r gyfraith. Mae'r SDR wedi adnabod mai Rwsia sy'n cyflwyno'r bygythiad mwyaf taer gan ragnodi cynllun "NATO'n gyntaf" ond nid NATO'n unig ar gyfer moderneiddio ein lluoedd milwrol i fod yn fwy integredig, angheuol a digidol-weithredol. Mae'r Adolygiad Diogelwch Strategol wedi adnabod bod angen ymateb i ystod eang o fygythiadau i ddiogelwch domestig – o derfysgaeth, troseddu cyfundrefnol difrifol ac eithafiaeth i fygythiadau i'r wladwriaeth – a disgrifiwn ein hymateb i'r rhain yn y ddogfen hon.

11. Fodd bynnag, mae NSS 2025 hefyd yn glir na fydd dull amddiffynnol – gyda'i brif nod o reoli risg – yn ddigon i gyflawni agenda'r llywodraeth, gan gynnwys y Cynllun dros Newid. Yn hytrach, fel yr eglura NSS 2025, byddwn yn **mabwysiadu dull ymgyrchu er mwyn: *lleihau unrhyw gyfle* sydd gan eraill i ddylanwadu'n ddichellgar neu danseilio sylfeini ein cryfder gwladol; ac *achub ar bob cyfle* i wella ein diogelwch a'n ffyniant, gan weithiau weithredu ar ben ein hunain ond gan amlaf ar y cyd ag eraill**. I wneud hyn bydd angen bod yn ddyfeisgar, creadigol a mentro'n ofalus, gyda chysondeb, dyfalbarhad a gweithredu effeithiol. Bydd yn cael ei adeiladu o gwmpas **nod hirdymor i gryfhau ein galluoedd sofran a'n mantais gystadleuol** i sicrhau ein bod yn cymryd rheolaeth ar ein dyfodol mewn byd ansicr. Gan hynny, pan fyddwn yn dod allan o'r cyfnod cythryblus hwn, dylai'r asesiad net o'n sefyllfa olygu ein bod mewn sefyllfa gryfach nag o'r blaen – yn economaidd, yn filwrol, diplomyddol ac o ran ein gwydnwch a lles gwladol yn gyffredinol – o'i gymharu â'n gwrthwynebwyr a'n cystadleuwyr.

12. Mae **meysydd parhad pwysig yn NSS 2025** y dylid eu pwysleisio o'r dechrau. Byddwn yn adeiladu ar sylfeini cryf ein lluoedd arfog, gwasanaeth diplomyddol a'n hasiantaethau cyfrin-wybodaeth, diogelwch a gorfodi'r gyfraith. Er y bygythiadau parhaus oddi wrth derfysgwyr ac eithafiaeth, mae gennyn ni un o'r systemau diogelwch gwladol a gwrth-derfysgaeth uchaf ei pharch yn y byd, gan darfu ar 43 o gynllwynion ymosod terfysgol 'hwyr yn y dydd' rhwng 2017 a 2024. Mae gennyn ni rwydwaith o bartneriaethau rhyngwladol a sedd wrth fwrdd y penderfynwyr byd-eang fel yr IMF a Banc y Byd, a thrwy ein haelodaeth barhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Mae ein presenoldeb diplomyddol medrus a chlodwiw ar draws y byd, a'n harbenigedd dwfn mewn diplomyddiaeth amlochrog, datblygu a datrys gwrthdaro, yn ein helpu i ddelio â heriau fel argyfyngau diogelwch newydd neu fudo torfol. Arhoswn yn ymrwymedig i fynd i'r afael â bygythiadau i'n diogelwch gwladol a'n ffyniant economaidd oddi wrth yr argyfwng hinsawdd a natur. Ochr yn ochr â'n partneriaid rhyngwladol, gweithredwn i ddarparu sicrwydd ynni, sicrwydd ariannol a thwf gwyrdd ar lefel ddomestig, gan adfer statws y DU fel arweinydd hinsawdd ar lwyfan y byd. Bydd ein perthynas gyda'r Unol Daleithiau ac Ewrop yn flaenoriaeth, fel y bu'n hanesyddol. Byddwn yn parhau i lynu wrth yr egwyddor bwysig – sy'n cael ei rhannu gan NATO a'i bartneriaid allweddol – bod diogelwch yr Ewro-Iwerydd a'r Indo-Basiffig yn annatod. Byddwn yn parhau gyda'n prif raglenni galluoedd fel AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-Eang (GCAP) a'n partneriaethau mewn rhanbarthau economaidd ffyniannus a geo-wleidyddol bwysig fel y Gwlff ac Asia. Byddwn yn meithrin ein cryfderau gwladol ar draws yr Undeb, fel ein pŵer meddal a'n cyrhaeddiad diwylliannol ynghyd â'n sectorau ariannol, gwasanaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, ynni ac addysg uwch.

13. Fodd bynnag, mae gan **NSS 2025 nifer o nodweddion unigryw** sy'n dangos ein bod yn gweithredu dulliau caletach a mwy craff, ac yn torri tir newydd o adolygiadau diogelwch gwladol blaenorol. Er mwyn newid i wario 5% o GDP ar ddiogelwch gwladol, rhaid i ni gytgordio ein hamcanion diogelwch gwladol a'n cynlluniau ar gyfer twf economaidd mewn ffordd nas gwelwyd ers 1945. Hanfod ein gweithredu felly fydd: **harneisio cryfderau cynhyrchiol, diwydiannol, technolegol a gwyddonol ein gwlad yn agosach i'n hamcanion diogelwch gwladol mewn ffordd nas gwelwyd ers y rhyfel**; a gwneud mwy i **ateb pryderon pobl gyffredin Prydain drwy ffordd fwy systematig o warchod ein buddiannau gwladol**. Bydd hyn yn dechrau ar lefel ddomestig gyda mesurau newydd i **wneud y DU yn darged anoddach** i wrthwynebwyr a throseddwyr, gan dderbyn na allwn rwystro pob actor gelynol. Ar sail hynny, ein **cenhadaeth bwysicaf ar lefel dramor fydd diwygio ac ail-ffurfio ein trefniadau diogelwch cyfunol** – gan ddechrau gyda'r Ewro-Iwerydd, cryfhau NATO gyda threfniadau newydd i rannu beichiau, ac atgyfnerthu Wcráin – **fel bod gennyn ni drefniadau atal hirdymor yn erbyn ein gwrthwynebwyr**. Fel rhan o hyn ac i sbarduno mwy o dwf economaidd, byddwn yn: **chwilio am fwy o ddyfnder strategol yn ein cynghreiriau allweddol**, o ddiogelwch i fasnach a dyfnhau cydweithrediad niwclear a thechnolegol; **cynyddu gwydnwch sylfaen diwydiannol y sector amddiffyn**; a chyflwyno **pwyslais newydd ar ddatblygu ein galluoedd sofran a'n mantais dactegol**, o dechnoleg arloesol i'r llongau tanddwr niwclear diweddaraf.

14. I gefnogi'r dull newydd hwn, byddwn yn:

- **Ehangu ein pwerau cyfreithiol a gorfodi'r gyfraith**, i sicrhau bod y DU yn darged anoddach i actorion gelyniaethus boed yn gyrff llywodraeth neu fel arall, gan gynnwys gangiau troseddol sy'n rhan o fudo anghyfreithlon.

- **Cyflwyno cyfres o fesurau newydd i gryfhau ein ffiniau, amddiffyn ein tiriogaeth a chryfhau gwydnwch ein seilwaith gwladol hanfodol**, gan amrywio o gryfhau amddiffyniad ein hynys i fesurau cryfach 'i fyny'r gadwyn' a galluoedd seiber.

- **Darparu'r buddsoddiad parhaus mwyaf yn ein lluoedd arfog ers y Rhyfel Oer**, gyda phwyslais ar eu gwneud yn fwy angheuol, parodrwydd am ryfel, stociau dyfnach o arfau rhyfel ac arloesi mewn, a mabwysiadu, technoleg newydd.

- **Rhoi blaenoriaeth benodol i NATO yn ein cynlluniau amddiffyn** fel rhan o'n hymdrechion i atgyfnerthu ein diogelwch cyfunol ynghyd â darparu galluoedd pwysig fel AUKUS a GCAP sy'n ategu ond heb fod wedi eu clymu i NATO'n unig.

- **Rhoi premiwm newydd ar "ddifidend amddiffyn" y DU**, gan droi'r cynnydd mewn buddsoddiad yn fwy o swyddi a sgiliau a chreu sylfaen diwydiannol cryfach a mwy gwydn ar gyfer amddiffyn, wedi'i gefnogi gan ddiwygiadau caffael sylweddol.

- **Ceisio dod i gytundeb masnach, technoleg a diogelwch dyfnach â'r Unol Daleithiau a chreu partneriaeth economaidd a strategol agosach â'r Undeb Ewropeaidd**, gan fynd yn bellach na'r cytundebau a luniwyd yn barod a chefnogi ein nod o greu perthynas strategol ddyfnach â'n prif gynghreiriaid.

- **Hogi ein ffocws diplomyddol ar wledydd sy’n ddaearyddol wasgarog ond yn economaidd lewyrchus a thechnolegol ddatblygedig** – yn enwedig y rhai hynny (o Ganada i wledydd y Gwlff, India, Indonesia, Singapôr, Japan, De Corea, Awstralia a Seland Newydd) sydd â diddordeb mewn cydweithredu ar fasnach a diogelwch, sydd y tu allan i’r blociau rheoleiddio mawr ac sy’n rhannu diddordeb tebyg mewn dylanwadu ar normau rhyngwladol er mwyn lliniaru a rheoli effaith y cystadlu rhwng y pwerau mawr.
- **Adnabod, meithrin a gwarchod cryfderau’r DU o ran awtonomi ei sylfeini diwydiannol, gwyddonol a thechnolegol** gydag amcanion penodol i wella ein sylfaen wybodaeth ac ymchwil, cryfhau ein diogelwch economaidd, gweld sectorau allweddol yn arloesi neu’n arwain, hybu ein heconomi a chryfhau ein dylanwad fel rhan o ecosystem ryngwladol ehangach.
- **Cryfhau agenda diogelwch gwladol y DU ar gyfer AI a thechnolegau arloesol eraill** ar sail tri philer: creu mwy o gapasiti cenedlaethol (gan gynnwys data, ymchwil, buddsoddiad, talent a rheoleiddio); cyflymu eu mabwysiadu gan sectorau allweddol; a hyrwyddo dealltwriaeth o’r peryglon i ddiogelwch gwladol.

15. Gan ddod â hyn oll at ei gilydd, byddwn yn gweithio i bartneru â phob rhan o gymdeithas, busnes, academia, a llywodraethau datganoledig a lleol, **fel rhan o ymdrech gwydnwch gwladol newydd** ar y siwrne at 5%. Mae’r broses yma’n dechrau drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r bygythiadau a wynebwn, a amlinellir yn y Cyd-destun Strategol sy’n dilyn, gan symud at greu contract cymdeithasol newydd rhwng llywodraeth a phobl Prydain, ar draws pob cornel o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Arbenigwr Morwrol ar fwrdd HMS Prince of Wales yn mordeithio drwy'r Môr Coch ar y ffordd i orllewin y Môr Tawel, 30 Mai 2025

# Y Cyd-destun Strategol: Byw mewn cyfnod o ansicrwydd radical

1. **Rydyn ni'n wynebu cyfnod newydd fydd wedi'i nodweddu gan ansicrwydd radical.** Mae'r drefn ryngwladol yn cael ei hail-greu gan gystadlu mwy chwyrn rhwng y pwerau mawr, treisgarwch awdurdodaidd ac ideolegau eithafol. Mae'n aneglur pryd y gwelwn gydbwysedd mwy sefydlog ac ar ba delerau y bydd yn cael ei lywodraethu. Mae'n gynyddol bosib y gwelwn fwy fyth o helbul geo-wleidyddol a siociau economaidd, wedi eu gwaethygu gan newidiadau technolegol a bygythiadau traws-wladol parhaus eraill.

2. **Yn y blynyddoedd i ddod, bydd gwledydd yn dod yn fwy beiddgar ar drywydd eu hamcanion ac yn fwy parod i greu ac ymarfer pwerau'r wladwriaeth i sicrhau eu buddiannau hanfodol.** Bydd hyn yn dangos ei hun drwy gystadlu mwy chwyrn am adnoddau, moderneiddio lluoedd milwrol, cystadlu technolegol, pwysau economaidd o'r tu allan, mwy o fygythiadau hybrid a ffiniau a normau rhyngwladol yn cael eu profi'n amlach gan y pwerau mawr – fel y gwelsom yn Ewrop, y Dwyrain Canol, Affrica, Asia a rhanbarth y Môr Tawel yn y blynyddoedd diwethaf.

3. **Mae llawer o'r rheolau y seiliwyd y system ryngwladol arnynt yn y gorffennol yn erydu.** Mae pwerau mawr fel Tsieina a Rwsia'n cystadlu am adnoddau a gofodau naturiol y byd wrth geisio ennill hawl a sicrhau adnoddau yn y gofod pell, mewn seiber-ofod, y môr dwfn ac ym mhegynnau'r Arctig a'r Antarctig. Bydd llai o sgôp i gytuno ar ddulliau sy'n gwarchod masnach deg, mesurau i reoli a ffrwyno datblygiadau gwyddonol a thechnolegol a lliniaru effeithiau newid hinsawdd, wrth i ddylanwad sefydliadau aml-ochrog leihau.

4. **Mae sylfeini sefydlogrwydd strategol yn cael eu herio.** Mae'r bygythiad i'r DU a'n cynghreiriaid oddi wrth arfau niwclear ar gynnydd unwaith eto. Mae mynd i'r afael â'r her yma'n debygol o fod yn fwy cymhleth nag yn ystod y Rhyfel Oer hyd yn oed, gyda mwy o wledydd yn bwerau niwclear, twf pellach technoleg niwclear ac aflonyddol, a bydd trefniadau rheoli arfau rhyngwladol yn methu â chadw ar ben pethau.

5. **Bydd amcanion twf a diogelwch gwladol y DU yn cael eu heffeithio'n ddwfn gan densiynau rhwng y pwerau mawr a'r blociau rheoleiddio ar fasnach, technoleg ac amddiffyn.** Bydd angen i ni addasu ein ffordd flaenorol o fasnachu oherwydd bydd economïau agored y tu allan i'r blociau mawr hyn yn wynebu mwy o hunan-warchodaeth, cyfyngiadau ar fasnach rydd ac ar fynediad at adnoddau. Bydd pwysau economaidd o'r tu allan yn dod yn fwy cyffredin wrth i wledydd eraill 'arfogi' masnach neu ddefnyddio rheolaethau allforio a chadwyn gyflenwi i ennill mantais.

6. **Bydd cwmnïau byd-eang mawr a chwmnïau bach newydd yn chwarae rôl sylweddol yn y cystadlu hwn, yn enwedig mewn datblygu'r galluoedd gwyddonol a thechnolegol sy'n ategu cryfderau milwrol ac economaidd gwledydd.** Am y rheswm hwn, bydd y cwmnïau mwyaf llwyddiannus yn debygol o ymarfer mwy o ddylanwad

economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol. Bydd y berthynas rhwng y sector preifat a'r wladwriaeth yn dod yn fwyfwy pwysig. Bydd arloesi'n cael ei hyrwyddo gan gyfalaf menter, ecwiti preifat a buddsoddiadau sefydliadol (y bydd gan wledydd democrataidd lai o reolaeth drostynt na rhai awdurdodaidd).

7. **Bydd heriau traws-wladol efallai'n dwysáu ac yn debygol o waethygu heriau diogelwch gwladol eraill.** Bydd yn rhaid i ni ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a'r posibilrwydd o ecosystemau'n chwalu, bygythiadau biolegol, newidiadau demograffig, mwy o drefoli, bygythiadau i iechyd pobl, twf economaidd arafach, anghydraddoldeb, a chystadlu am adnoddau sylfaenol fel bwyd a dŵr. Bydd mudo cynyddol a phobl yn symud o wlad i wlad yn parhau i roi pwysau ar ffiniau, seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus, gan efallai gynyddu amheuon ymddiried a thwyll-wybodaeth.

8. **Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o gystadlu strategol.** Bydd datblygiadau technolegol, yn enwedig mewn cyfrifiadura cwantwm, bioleg beirianyddol ac AI, yn cyflymu arloesi a dod â manteision i'n ffyniant, iechyd, addysg a diogelwch. Bydd hefyd yn golygu mwy o gystadlu am ffynonellau ynni a mwynau hanfodol. Gallai'r rhai fydd ar y blaen yn y cystadlu hwn sicrhau goruchafiaeth dechnolegol, yn enwedig os llwyddir i ennill mantais 'mabwysiadwr cyntaf' yn y meysydd mwyaf addawol (fel AI trawsnewidiol). Bydd cyflymdra'r arloesi'n golygu y bydd rheoliadau rhyngwladol, safonau diogelwch ac ymatebion gorfodi'r gyfraith yn cael trafferth cadw ar y blaen i bethau. Bydd gwledydd yn defnyddio nifer o wahanol bwerau i annog pencampwyr cenedlaethol fydd yn faenllaw mewn AI a thechnolegau hanfodol eraill, gan greu partneriaethau preifat-gyhoeddus â chwaraewyr byd-eang i sicrhau bod ganddynt fynediad at y galluoedd gorau i ennill mantais drwy ddylanwadu ar ddatblygu safonau technegol digidol.

9. **Bydd technoleg hefyd yn gwneud gwledydd yn fwy bregus a newid cymeriad gwrthdaro.** Gallai arfau cemegol a biolegol newydd gael eu datblygu ac ehangu. Bydd taflegrau hypersonig a systemau sy'n gweithio drwy AI yn cael eu disodli gan alluoedd masgynhyrchu ansoffistigedig fel drôns. Bydd rhai o'r technolegau hyn ar gael i ystod ehangach o actorion bygwth gan gyflwyno heriau newydd i'r cysyniadau traddodiadol o atal a gwaethygu sefyllfa.

10. **Mae bygythiadau i'n gwlad oddi wrth actorion llywodraeth yn cynyddu.** Mae'r DU yn cael ei bygwth yn uniongyrchol gan weithgareddau gelyniaethus fel brad-lofruddio, bygwth drwy fraw, ysbïo, difrod bwriadol, ymosodiadau seiber a mathau eraill o aflonyddu democrataidd. Mae'r rhain wedi targedu ein dinasyddion, sefydliadau, newyddiadurwyr, prifysgolion a'n busnesau. Mae gwrthwynebwyr yn bygwth cytgord cymdeithasol a cheisio erydu ffydd y cyhoedd drwy dwyll-wybodaeth, defnydd maleisus o gyfryngau cymdeithasol a phrocio tensiynau rhwng cenedlaethau, grwpiau ethnig a'r rhywiau. Yn y cyfamser bydd seilwaith gwladol hanfodol – gan gynnwys ceblau tanfor, piblinellau ynni, hybiau cludiant a logisteg – yn parhau i fod yn dargedau. Gallai fynd yn anoddach adnabod gweithgareddau gwledydd gelyniaethus sy'n defnyddio grwpiau terfysgol a throseddol i weithredu ar eu rhan. Bydd ein dibyniaeth ar ganolfannau data a mathau eraill o seilwaith digidol hefyd yn ein gwneud yn fwy agored i ymosodiadau seiber.

11. **Bydd y bygythiad cyfunol hwn oddi wrth derfysgwyr, troseddwyr ac actorion unigol yn esblygu wrth i ansefydlogrwydd tramor fwydo radicaliaeth ac eithafiaeth yn y DU.** Bydd 'gofodau' dilywodraeth yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica'n amlygu'r heriau

hyn, ynghyd â mudo anghyfreithlon. Bydd terfysgaeth – o ideolegau Islamaidd ac Adain Dde Eithafol – yn parhau i fod yn fygythiad parhaus a newidiol. Yn gynyddol, defnyddir dulliau hybrid a thechnoleg-weithredol yn fel rhan o arfdy'r terfysgwr. Mae nifer y bobl ifanc fregus sy'n cael eu disensiteiddio, ecsbloetio a'u radicaleiddio ar-lein yn debygol o gynyddu, a bydd mwy o unigolion yn dod dan gyfaredd trais eithafol. Bydd hyn yn cael ei waethygu gan dwf gweithgarwch anghyfreithlon a chynnwys niweidiol ar-lein, a gan amgryptio deuben sy'n rhwystro ymdrechion gorfodi'r gyfraith. Ochr yn ochr â hyn, bydd troseddu cyfundrefnol yn parhau i fod y bygythiad dydd-i-ddydd mwyaf difaol i'r rhan fwyaf o bobl y DU, a bydd technoleg newydd yn creu llai o rwystrau i ymuno â'r farchnad gan waethygu cyllido anghyfreithlon, ymosodiadau seiber a thwyll ar-lein, cyffuriau traws-ffiniol, cam-drin plant yn rhywiol a masnachu mewn pobl.

12. Yng nghyd-destun diogelwch gwladol, mae'r tueddiadau hyn yn debygol o greu cyfyng-gyngor a gorfodi dewisiadau anodd yn fuan iawn. Maen nhw hefyd yn debygol o ddangos eu hunain fel heriau strategol mwy taer a difrifol nag ar unrhyw adeg ers degawdau. Bydd yr heriau hyn yn cynnwys: **dod i wrthdrawiad** (anuniongyrchol ac efallai uniongyrchol) **â'n gwrthwynebwyr; cystadlu** (systematig a strategol) **â gwledydd eraill; a chydweithredu** (fydd yn dod yn anoddach ond o bosib yn bwysicach nag erioed o'r blaen).

## Gwrthdrawiad

13. **Rydyn ni mewn cyfnod o wynebu dod i wrthdrawiad â'r rhai sy'n bygwth ein diogelwch.** Yr enghraifft fwyaf amlwg a thaer o hyn yw Rwsia yn ei rhyfel anghyfreithlon yn erbyn cymydog Ewropeaidd. Mae pobl Wcráin yn talu'r pris eithaf wrth ganfod eu hunain ar flaen y gad yn y gwrthdrawiad hwn. Mae'r rhyfel hwn wedi'i gyplysu ag ymgyrch o weithgareddau anuniongyrchol ac is-drothwy – gan gynnwys ymosodiadau seiber a difrod bwriadol – gan Rwsia yn erbyn y DU a'n cynghreiriaid eraill yn NATO, a rhethreg niwclear gynyddol mewn ymgais i gyfyngu ein penderfyniadau. Mae gweithgareddau gelyniaethus gan Iran ar dir Prydain hefyd yn cynyddu, fel rhan o ymdrechion y gyfundrefn yn Iran i dawelu ei beirniaid yn ogystal â bygwth y DU yn uniongyrchol. Yn y cyfamser, mae rhai gwrthwynebwyr yn gosod y sylfeini ar gyfer gwrthdaro yn y dyfodol gan baratoi i symud yn gyflym i achosi aflonyddwch ynni a / neu gadwyn cyflenwi sylweddol, i'n hatal rhag herio eu treisgarwch. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, rhaid i ni baratoi'n weithredol am y posibilrwydd y gallai'r DU wynebu bygythiad uniongyrchol, efallai mewn senario rhyfel.

14. **Mae'r tebygolrwydd o senarios pryd y gofynnir i ni, neu bryd y dewiswn, herio bygythiadau drwy ddefnyddio grym milwrol yn cynyddu.** Gwelsom grwpiau fel yr Houthis yn bygwth egwyddor hanfodol y rhyddid i fordwyo drwy ymosod ar longau masnachol yn y Môr Coch, a hefyd ar lyngesau'r cynghreiriaid sydd yno i'w gwarchod (gan arwain at weithredu milwrol gan y DU). Mae elfennau o luoedd arfog y DU wedi cael eu symud i stâd uwch o barodrwydd droeon mewn gwahanol 'theatrau'. Bydd bod yn fwy gwyliadwrus ym mhob cyswllt felly'n hanfodol er mwyn parhau i atal y rhai sy'n ceisio tanseilio ein diogelwch tiriogaethol, er enghraifft drwy fonitro a gwrthsefyll gweithgareddau llongau cudd-wylio mewn dyfroedd Prydeinig.

15. **Mae rhyfel rhwng y pwerau mawr, argyfwng diogelwch rhyngwladol, neu sefyllfa lle y mae nifer o argyfyngau'n digwydd mewn gwahanol wledydd, yn bosibilrwydd diymwad.** Mae'r tensiynau rhwng India a Phacistan wedi bod ar eu huchaf ers

degawdau. Mae'r posibilrwydd o wrthdrawiad mawr yn yr Indo-Basiffig yn parhau i gynyddu, gyda gweithgareddau peryglus a dadsefydlogi gan Tsieina'n bygwth diogelwch rhyngwladol. Gwelsom wrthdaro milwrol uniongyrchol rhwng Israel ac Iran. Mae hyn ar ôl blynyddoedd o weithgareddau ymosodol a dadsefydlogi gan Iran, gan gynnwys rhai wedi eu targedu'n benodol at fuddiannau domestig a thramor y DU. Pe bai'r sefyllfa'n gwaethygu mewn unrhyw un o'r theatrau hyn, byddai'n cael effaith negyddol ddofn ar ein sicrwydd ynni, costau byw a'n hymdrechion i dyfu'r economi.

## Cystadlu

16. **Ochr yn ochr â'r cyfnod hwn o wrthdrawiad, rydyn ni a'n cynghreiriaid mewn cystadleuaeth systemig a strategol tymor canolig i hir â gwledydd sydd â gwerthoedd a buddiannau pur wahanol i ni, neu a allai danseilio ein diogelwch a'n ffyniant.** Mae hyn yn berthnasol i bob agwedd ar ein polisi domestig a thramor, nid yn unig bryderon amddiffyn a diogelwch traddodiadol. Yn union fel yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, yn y deng mlynedd nesaf bydd gwledydd fydd yn gallu harneisio eu pwerau cynhyrchu – a byddino eu holl asedau tuag at amcanion strategol – yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa o fantais gymharol.

17. **Mae gwledydd awdurdodaidd yn gweithredu cynlluniau aml-flwyddyn i ennill mantais ar wledydd democrataidd rhyddfrydol ym mhob maes, o foderneiddio eu lluoedd milwrol i ddatblygiadau gwyddonol a thechnoleg, o'u modelau economaidd i'r 'gofod' gwybodaeth.** Ers 2022, er enghraifft, mae Rwsia wedi cynyddu ei gwariant ar amddiffyn yn aruthrol, nid yn unig ar gyfer ei rhyfel yn Wcráin ond hefyd i atgyfnerthu sylfaen diwydiannol ei sector amddiffyn a bygwth eraill yn ei chymdogaeth. Fel yr ail economi fwyaf yn y byd, gyda rheolaeth lem gan y llywodraeth ganolog, mae her y cystadlu oddi wrth Tsieina – sy'n amrywio o foderneiddio ei lluoedd milwrol i haeru grym gwladwriaeth sy'n cwmpasu polisi economaidd, diwydiannol, gwyddoniaeth a thechnoleg – yn cyflwyno canlyniadau a allai fod yn anferth i fywydau pobl Prydain.


18. **Un o brif nodweddion y cystadlu hwn yw parodrwydd gwrthwynebwyr a chystadleuwyr i weithio'n agosach â'i gilydd.** Mae hyn yn strategol a manteisgar. Mae Gogledd Korea nid yn unig yn bygwth ei chymdogion yn Asia drwy brofi taflegrau balistig; mae hefyd wedi anfon miloedd o filwyr i gefnogi rhyfel anghyfreithlon Rwsia yn Wcráin, gan herio'r rhai sy'n ceisio diogelu diogelwch Ewrop yn uniongyrchol. Mae Iran wedi anfon taflegrau a drôns i Rwsia ac mae Tsieina wedi helpu Putin i gynnal ei sylfaen diwydiannol ar gyfer amddiffyn. Wrth i'n gwrthwynebwyr a'n cystadleuwyr barhau i foderneiddio eu lluoedd milwrol, bydd materion fel trosglwyddo technoleg a gorfodi sancsiynau'n dod yn fwyfwy pwysig.

# Cydweithredu

19. **Yn y cyfnod hwn o newid parhaus ac ansicrwydd, bydd yn bwysicach nag erioed bod gan y DU gynghreiriau cryf.** Mae hyn yn un o'n prif fanteision strategol cystadleuol. Yn draddodiadol, nid yw ein gwrthwynebwyr wedi bod mor effeithiol yn gweithio fel rhan o glymblaid, gyda'r ymddiriedaeth a'r sefydlogrwydd sy'n tyfu o ddegawdau o gynghreirio a phartneriaethau sy'n rhan o grwpiau fel NATO, y G7 neu'r 'Pum Llygad'.

20. **Ond eto, mae'r tybiaethau a fu'n rhan annatod o'n cynghreiriau'n mynd drwy newid sylfaenol – efallai'r newid mwyaf mewn 70 o flynyddoedd.** Ochr yn ochr â hyn, mae ailgydbwyso mawr ar y system ryngwladol yn digwydd. Mae'r Unol Daleithiau'n enwedig wedi dweud yn glir a throeon wrth ei chynghreiriaid Ewropeaidd bod angen iddynt wario mwy ar amddiffyn. Ynghlwm â hyn, bydd angen i'r cynghreiriaid sicrhau bod sylfeini diwydiannol eu sectorau amddiffyn yn fwy rhyngweithredol a chydnaws.

21. **Byddwn yn gweld trefn fwy trafodiadol yn y blynyddoedd i ddod wrth i wledydd ddibynnu mwy ar gytundebau dwyochrog pragmatig a grwpiau bach o wledydd i gyflawni eu hamcanion.** Ond bydd gweithio tuag at reoleiddio a normau a gytunwyd yn rhyngwladol, wedi eu stiwardio gan sefydliadau – yn parhau i fod yn hanfodol. Bydd cyfleoedd i ddyfnhau cysylltiadau strategol â chynghreiriaid traddodiadol. Ar yr un pryd, gallai gweithio'n agosach â gwledydd gyda gwahanol werthoedd, ond sy'n rhannu'r un buddiannau, ddod yn fwy cyffredin. Bydd parodrwydd a hyblygrwydd yn hollbwysig.


Fframwaith Strategol
Diogelwch Domestig
Cryfder Dramor
Galluoedd Sofran
Amddiffyn ein tiriogaeth
Cryfhau diogelwch cyfunol
Gwneud y DU yn darged anoddach
Adnewyddu a dyfnhau ein cynghreiriau
Creu gwydnwch yn erbyn bygythiadau i ddod
Datblygu perthnasoedd newydd mewn meysydd newydd
Ail-adeiladu sylfaen ein diwydiant amddiffyn
Sicrhau mantais dactegol
Adnabod, meithrin a gwarchod galluoedd sofran eraill

# Fframwaith Strategol

Mae'r Fframwaith yma'n cyflwyno'r egwyddorion trosfwaol fydd yn tywys ymateb y DU i'r cyd-destun a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol. Mae'r tri philer yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae diogelwch domestig yn sicrhau'r sylfeini hanfodol ar gyfer ymarfer ein cryfder dramor a meithrin ein cryfderau gwladol unigryw. Mae gweithio gydag eraill dramor yn hanfodol er mwyn gwarchod ein pobl a thyfu ein heconomi. Mae datblygu ein galluoedd sofran yn ein cadw'n ddiogel yn ein gwlad ein hunain, yn rhoi hwb i'n cynhyrchedd economaidd a chynyddu ein dylanwad rhyngwladol.

**(i) DIOGELWCH DOMESTIG**

- Amddiffyn ein tiriogaeth
- Gwneud y DU yn darged anoddach
- Cryfhau gwydnwch i fygythiadau yn y dyfodol


**(ii) CRYFDER DRAMOR**

- Atgyfnerthu ein diogelwch cyfunol
- Adnewyddu ac adfywio cynghreiriau allweddol
- Datblygu partneriaethau newydd mewn meysydd newydd

**(ii) CYNYDDU GALLUOEDD SOFRAN A THACTEGAU ANGHONFENSIYNOL**

- Ail-adeiladu sylfaen diwydiannol ein sector amddiffyn
- Adnabod, meithrin a gwarchod galluoedd sofran eraill
- Sicrhau mantais dactegol

# Piler (i) – Diogelwch Domestig




1. Piler cyntaf ein Fframwaith Strategol yw gwarchod ein pobl, atgyfnerthu diogelwch ein gwlad a chryfhau ein ffiniau yn erbyn pob math o fygythiadau, yn y gofod ffisegol ac ar-lein. Heb ddiogelwch a gwydnwch domestig, ni allwn ddarparu twf economaidd nac ychwaith unrhyw genhadaeth arall gan y llywodraeth i wella bywydau pobl Prydain.

2. Mae gwaith hollbwysig yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chyfrin-wybodaeth – yn aml yn ddirgel ac yn y cysgodion, ac yn aml yn wyneb perygl personol mawr – yn anhepgor i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Ond mae bygythiadau hybrid drwy gymorth technoleg yn brawf mwy nag erioed ar eu gallu i weithredu'n ddiogel, di-risg a dirgel. Mae gweithgareddau gelyniaethus ar dir Prydain gan wledydd fel Rwsia ac Iran yn cynyddu gan fygwth ein pobl, seilwaith gwladol hanfodol a'n ffyniant. Mae mudo anghyfreithlon, gyda chymorth gangiau troseddol, yn parhau i roi straen ar wasanaethau cyhoeddus a threfn ein cymdeithas, gan gynnwys argraff pobl o degwch a chyfiawnder. Mae grwpiau terfysgaeth byd-eang yn fygythiad parhaus a di-atal – gan gyfarwyddo, trefnu a galluogi cynllwynion yn y DU – a gwelwn hefyd fwy o unigolion heb unrhyw ideoleg benodol sydd dan gyfaredd trais ac wedi eu gyrru a'u galluogi gan yr amgylchedd ar-lein. Mae'r bygythiadau cyfunol o bob cyfeiriad oddi wrth gyrff llywodraeth, terfysgwyr ac eithafwyr, a throseddwyr cyfundrefnol – gyda chymorth technoleg – yn cyflwyno risgiau newydd ac esblygol i'n economi, democratiaeth a'n ffordd o fyw.

3. Mae'r bygythiadau lluosog a rhyng-gysylltiedig hyn yn golygu bod angen gwneud ein hunain yn darged anoddach i'n gwrthwynebwyr. Fel cam cyntaf, rhaid cryfhau ein dulliau o amddiffyn ein ffiniau a'n dyfroedd tiriogaethol. Bydd hyn yn dechrau ar lefel ryngwladol drwy weithio gyda'n partneriaid ar draws y byd fel rhan o ymateb cyfunol i heriau fel mudo anghyfreithlon. Yn ail, rydyn ni'n cymryd mesurau newydd i rwystro a gwarafun actorion gelyniaethus sy'n ceisio manteision ar natur agored ein democratiaeth. Fel rhan o hyn, rhaid i ni amddiffyn ein seiber-ddiogelwch a'n diogelwch economaidd yn well, sydd mor


hanfodol i arloesi a thwf. Yn olaf, bydd angen i ni baratoi'n well ar gyfer bygythiadau posib sydd ar y gorwel, o bandemig arall i aflonyddwch ynni ac i'n cadwyni cyflenwi, a bygythiadau newid hinsawdd i'n diogelwch bwyd.

## Adran (1) – Amddiffyn ein tiriogaeth

4. Mae angen i ynyswlad fod yn gallu rheoli ei ffiniau a'i hamgylchedd morwrol. Mae diogelwch domestig yn gofyn monitro a rheoli pwy a beth sy'n dod i'n dyfroedd a'n gofod awyr. Mae'r DU yn dibynnu ar geblau ffeibr-optig tanfor ar gyfer 99% o'i chyfathrebu digidol a daw tua thri chwarter o holl gyflenwad nwy'r DU o biblinellau tanfor. Mae ein diogelwch tiriogaethol felly'n dechrau ar y môr – o fod yn gallu rhwystro gangiau troseddol ac atal gwledydd gelyniaethus i fewnforio cyflenwadau bwyd ac ynni.

5. Bydd y Llynges Frenhinol yn chwarae rôl flaenllaw a chydgysylltiol mewn diogelu'r seilwaith tanfor a'r traffig morwrol sy'n cludo'r wybodaeth, yr ynni a'r nwyddau y dibynnwn arnynt. Fel rhan o Ymgyrch *Atlantic Bastion*, byddwn yn herio'r bygythiadau tanddwr parhaus a chynyddol gan longau tanddwr a fflyd gysgodol Rwsia. Mae newidiadau i'n Rheolau Ymladd yn golygu y gall ein llongau rhyfel bellach wneud mwy i dracio llongau sy'n cael eu hamau o ysbïo neu achosi difrod bwriadol. Dan arweinyddiaeth y DU, mae'r Fyddin Ymgyrchol Ar y Cyd (JEF) yn cynyddu ei hymdrechion i dracio bygythiadau posib i seilwaith tanfor a fflyd gysgodol Rwsia yn ei phencadlys gweithredol yn Northwood. Mae ein cynghreiriaid yn NATO hefyd yn ein helpu i amddiffyn ein dyfroedd drwy Uned Reoli Forwrol NATO a leolir yn y DU, a hefyd drwy Ymgyrch Baltic Sentry, sy'n sicrhau na all llongau Rwsia weithredu'n ddirgel gerllaw tiriogaethau'r DU neu NATO.

## Mae ceblau ffeibr-optig tanfor yn cludo 99% o ddata digidol y DU




Mae **99%** o draffig data rhyngwladol y DU yn cael ei drawsyrru drwy geblau tanfor

Mae **£65bn** o weithgarwch economaidd y DU yn dibynnu ar y diwydiant ceblau tanfor gan gynnwys ceblau ffeibr-optig

Mae ceblau tanfor yn rhoi mynediad i'r we fyd-eang i **67.8 miliwn** o Brydeinwyr

Mae trwsio un cebl ffeibr-optig sydd wedi'i ddifrodi yn gallu costio hyd at **£1m** fesul digwyddiad

Ffynhonnell: Tele-ddaearyddiaeth y Map; Cydbwyllgor y Strategaeth Diogelwch Gwladol (JCNSS); Prifysgol Huddersfield: Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o Ddiwydiant Ceblau Tanfor y DU 2016; Data Reportal Digital 2025: Y Deyrnas Unedig; Pwyllgor Gwarchod Ceblau Rhyngwladol: Difrod i Geblau Tanfor o Angorau wedi'u Difrodi 2025

6. Rhaid diogelu sofraniaeth dros y Tiriogaethau Tramor rhag pob her er mwyn cynnal hawl y bobl sy'n byw yn y Tiriogaethau fel gwladolion Prydeinig i benderfynu eu dyfodol. Mae'r Tiriogaethau Tramor yn ganolfannau strategol ar gyfer y DU a'n cynghreiriaid i gefnogi ystod eang o alluoedd diogelwch. Byddwn yn cynnal ein presenoldeb milwrol yn Gibraltar, yng Nghanolfannau Milwrol Sofran Akrotiri a Dhekelia, Ynys Ascension, Ynysoedd y Falklands a De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De i ddarparu amcanion amddiffyn y DU a chefnogi presenoldeb gwyddonol y DU yn Nhiriogaeth Antarctig Prydain, gan gynnal system y Cytundebau Antarctig. Bydd y ganolfan ar y cyd bwysig rhwng y DU / UDA ar Diego Garcia yn parhau i herio ystod eang o fygythiadau oddi wrth derfysgaeth, môr-ladron a gweithgareddau gan wledydd gelyniaethus. Bydd cytundeb y llywodraeth â Mauritius, wedi'i gefnogi gan yr UDA, yn golygu bod rheolaeth lawn y DU dros y ganolfan


hanfodol hon yn parhau, gyda darpariaethau diogelwch cadarn, gan sicrhau y gall barhau i weithredu fel o'r blaen, gyda sicrwydd cyfreithiol, ymhell i'r ganrif nesaf.

7. Mae ffiniau'r DU yn un o gonglfeini hanfodol ein diogelwch gwladol gan ein gwarchod rhag bygythiadau rhyngwladol a'n helpu i gynnal a gorfodi ein cyfreithiau domestig fel y gall ein pobl fyw eu bywydau'n rhydd a hyderus. Drwy'r Ganolfan Diogelwch Ffiniau newydd, buddsoddwyd dros £150 miliwn eisoes dros ddwy flynedd mewn swyddogion arbenigol a thechnoleg, gan gynnwys gweithredu gwersi a ddysgwyd o wrth-derfysgaeth a gwneud defnydd llawn o'n hasiantaethau cyfrin-wybodaeth a gorfodi'r gyfraith.

8. Rydyn ni hefyd yn buddsoddi mewn technoleg newydd i gynorthwyo personél rheng flaen i dargedu ymyriadau'n well, ac i wneud mwy o ddal a chipio wrth y ffin. Mae cyflwyno Awdurdodiadau Teithio Electronig yn golygu y gallwn atal pobl y gwyddom eu bod yn cyflwyno risg i'r DU rhag teithio. Byddwn yn defnyddio system fisa'r DU i gydweithredu mwy â gwledydd eraill ar anfon pobl yn ôl. Mae hyn yn cynnwys defnyddio pwerau i beidio â rhoi fisas i wledydd nad ydynt yn cydweithredu ar dderbyn eu dinasyddion yn ôl. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn haws i wrthod mynediad neu loches i rai sy'n torri ein cyfreithiau, drwy symleiddio'r rheolau a'r broses o allgludo gwladolion tramor sy'n torri'r gyfraith.

9. Er mwyn herio troseddu mudo cyfundrefnol a gwasgu'n fwy llym ar smyglo pobl, rhaid cael partneriaethau â'r gwledydd ar gychwyn ac ar hyd y daith, a dyna pam ein bod wedi gwahodd dros 50 o wledydd a sefydliadau rhyngwladol i'r uwch-gynhadledd ryngwladol fawr gyntaf i drafod troseddu mudo cyfundrefnol. Drwy Gynllun Blaenoriaeth Grŵp Calais 2025 – sydd wedi'i gytuno â'r Almaen, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd – rydym wedi ymrwymo i gryfhau cydweithrediad ar orfodi'r gyfraith drwy Europol i fynd i'r afael a mudo afreolaidd a diogelu mwy ar ein ffiniau. Rydyn ni wedi ehangu ein Tasglu Mudo Ar y Cyd ag Albania a Kosovo i gynnwys Gogledd Macedonia, gyda chynlluniau i gynnwys Montenegro, ac wedi cytuno cynllun Gweithredu Ar y Cyd i atal masnachu mewn pobl â Fietnam a Chytundeb Diogelu Ffiniau ag Irac i dargedu gangiau smyglo.

### Atal gweithgarwch troseddol wrth ffiniau'r DU




Ffynhonnell: Llu'r Ffiniau, Data Tryloywder Ch1 2025; Caethwasiaeth Fodern y Swyddfa Gartref: Ystadegau NRM a DtN, crynodeb diwedd blwyddyn 2024

## Adran (2) – Gwneud y DU yn darged anoddach

10. Mae natur agored ein democratiaeth a'n economi'n gryfderau gwladol. Gan hynny mae'n hanfodol cadw ar y blaen i rai sy'n ceisio eu hecsbloetio drwy amddiffynfeydd cadarn. Er na allwn rwystro pob bygythiad i'r DU, rydyn ni'n cymryd camau i wneud ein gwlad yn rhywle anoddach i actorion gelyniaethus weithredu ynddi.

11. Mae'r Cynllun Cofrestru Dylanwadau Tramor, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Diogelwch Gwladol 2023, yn offeryn hollbwysig. Bydd yn cryfhau gwydnwch system wleidyddol y DU yn erbyn dylanwadau tramor dirgel ac yn rhoi mwy o sicrwydd ar weithgareddau pwerau neu gyrff tramor dynodedig os oes risg i ddiogelwch gwladol. Rydyn ni'n barod wedi rhoi Rwsia ac Iran ar haen uwch y cynllun fel y bydd angen i bawb sy'n gweithio i'r gwledydd hyn yn y DU – gan gynnwys actorion procsi troseddol – ddatgan eu gweithgareddau neu fentro cael eu herlyn a'u carcharu. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio sancsiynau i chwalu rhwydweithiau a galluogwyr troseddol a ddefnyddir gan Iran i wneud ei gwaith.

12. Rydyn ni'n ymrwymedig i weithredu argymhellion yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Bygythiadau Gwladwriaethol, a chreu pwerau newydd – seiliedig ar wrth-derfysgaeth – i fynd i'r afael â bygythiadau i'r wladwriaeth. Bydd Plismona Gwrth-Derfysgaeth yn parhau i ymchwilio i droseddau terfysgaeth a bygythiadau i'r wladwriaeth. Rydyn ni hefyd wedi adnewyddu mandad y Tasglu Amddiffyn Democratiaeth fydd yn cryfhau'r rhagofalon yn erbyn unigolion a chwmnïau sy'n gweithredu fel actorion procsi am roddion tramor.

13. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i addasu ein systemau diogelwch gwladol yn unol â'r bygythiad parhaus ond newidiol oddi wrth derfysgaeth. Bydd y Ganolfan Gwrth-Derfysgaeth yn parhau i ddarparu lleoliad unigol i'r heddlu, MI5, prawf, partneriaid gweithredol eraill a gwledydd y 'Pum Llygad' ar gyfer cydlynu ymdrechion i darfu ar grwpiau terfysgaeth ac atal ymosodiadau. Mae Deddf Terfysgaeth (Gwarchod Anheddau) 2025, y cyfeirir ati'n aml hefyd fel Cyfraith Martyn, yn gwella diogelwch y cyhoedd a sicrhau ein bod yn gwreiddio gwersi o'r ymosodiad ofnadwy yn Manchester Arena.

14. Mae'r ymosodiad dychrynllyd yn Southport yn enghraifft o'r bygythiad cynyddol gan unigolion sydd dan gyfaredd trais eithafol, er ei fwyn ei hun yn ôl pob golwg. Rhaid i ni felly weithio'n agosach ar draws gorfodi'r gyfraith, addysg, iechyd a chyfiawnder. Byddwn yn adolygu ein fframwaith deddfwriaethol i ystyried trosedd newydd o "weithredoedd paratoi" am "drais eithafol", i rai sy'n cael eu hadnabod i fod dan gyfaredd trais.

15. Bydd mynd i'r afael â niweidiau a hwylusir gan dechnoleg ar-lein hefyd yn ganolog i reoli bygythiadau, gan gynnwys gan derfysgwyr a thrais eithafol. O dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (OSA), rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd bellach gymryd camau cymesur i wneud eu gwasanaethau'n ddiogel a gwarchod defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon. Er bod yr OSA yn rhoi'r cyfrwng i wneud gwasanaethau'n fwy diogel, yn enwedig o ran cynnwys terfysgaeth, mae heriau sylweddol o ran delio â chynnwys treisgar ac eithafol arall ar-lein. Rhaid i lywodraeth, gorfodi'r gyfraith a darparwyr gwasanaeth ddod o hyd i ffyrdd o ddelio â'r math yma o gynnwys, gan gynnwys drwy weithio gyda, a chefnogi Ofcom i ddefnyddio'r OSA i'r eithaf.

16. Mae dod i'r DU – a bod yn rhan o'n cymdeithas – yn golygu ufuddhau i'r un rheolau â phawb arall. Ni fyddwn yn derbyn sefyllfa lle y daw pobl â rhyfeloedd neu raniadau sydd â'u gwreiddiau dros y môr i strydoedd y DU. Bydd y wladwriaeth yn dileu'r llwyfannau a'r breintiau a roddir i unrhyw un sy'n cam-drin yr egwyddor sylfaenol hon. Byddwn yn gwrthod fisas i rai sydd am deithio i'r DU i wasgaru anghytgord yn ein cymunedau, ac yn caledu ein hymateb i rai sy'n cam-drin statws elusennol i bedlera safbwyntiau eithafol.

17. Mae seiber-ddiogelwch a diogelwch economaidd yn dod yn fwyfwy pwysig i dyfu ein busnesau a byw ein bywydau pob dydd. Ond mae'r gwasanaethau hanfodol, seilwaith a'r gwasanaethau digidol y dibynnwn arnynt yn wynebu ymosodiadau seiber maleisus, soffistigedig, cyson a gwaeth o hyd, fel meddalwedd wystlo. Bydd y Ganolfan Seiber-Ddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn parhau i helpu i rymuso busnesau, y sector cyhoeddus a'r cyhoedd i warchod eu hunain rhag ymosodiadau seiber, a chefnogi ymatebion ac adferiad o ymosodiadau.

18. Yn ehangach, rydyn ni'n addasu ein dulliau'n barhaus i sicrhau ein bod yn darged digidol anoddach i'n gwrthwynebwyr. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Strategaeth Seiber Genedlaethol newydd a chyflwyno Bil Seiber-Ddiogelwch a Gwydnwch yn cyflwyno pwerau a gwarchodaethau cyfreithiol newydd. Mae'r NCSC yn gweithio i gefnogi'r cyhoedd a'r sector preifat i bontio at gryptograffi gwrth-gwantwm erbyn 2035 ac i ymateb i'r her o ymosodiadau seiber drwy ddulliau cwantwm.

19. Mae Deddf Diogelwch Gwladol a Buddsoddi 2021 a'r Uned Diogelu Buddsoddiadau yn parhau i fod yn ganolog i ddiogelu ein heconomi. Maen nhw'n dod ag arbenigedd at ei gilydd ar draws llywodraeth i adolygu caffaeliadau a rhoi mesurau lliniaru yn eu lle i atal buddsoddiadau rhag niweidio ein diogelwch gwladol. Byddwn hefyd yn defnyddio mesurau Deddf (Diogelwch) Telathrebu 2021 i ddiogelu rhwydweithiau a gwasanaethau telathrebu cyhoeddus, ac i liniaru yn erbyn y bygythiad diogelwch oddi wrth werthwyr risg uchel.

20. Cefnogir pob rhan o'n diogelwch gan ein mesurau i fynd i'r afael â chyllido anghyfreithlon – yr arian sy'n llifo o weithgareddau troseddol sy'n ategu bygythiadau i'r DU ac sy'n cynnwys rhwydweithiau terfysgaeth, grwpiau troseddu difrifol a chyfundrefnol, a chyrff llywodraeth gelyniaethus. Bydd ein Strategaeth Gwrth-Lygredd newydd yn herio cyllido anghyfreithlon, cleptocratiaeth a gweithgareddau llwgr, ar lefel ddomestig a rhyngwladol.

**Cost troseddu cyfundrefnol difrifol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hyd at £100bn** wedi'i wyngalchu drwy'r DU neu strwythurau corfforaethol y DU yn flynyddol | Costiodd Seiber-Ymosodiad Wannacry y GIG **£92m a 19,000 o apwyntiadau meddygol** | Dim ond y llynedd, dywedodd dros **40%** o fusnesau yn y DU eu bod wedi profi torri seiber-ddiogelwch neu seiber-ymosodiad | Amcangyfrifwyd bod twyll yn erbyn unigolion yn costio o leiaf **£6.8bn** |

Ffynhonnell: Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Troseddau Economaidd: Adroddiad Blynyddol 2023-2024; Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Sicrhau seibergadernid mewn iechyd a gofal 2018; Ystadegau Seiberdroseddu'r DU 2025; Strategaeth Twyll y Swyddfa Gartref: atal sgamiau a diogelu'r cyhoedd 2023

## Adran (3) – Cryfhau gwydnwch i fygythiadau yn y dyfodol

21. Mae NSS 2025 yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol mesurau hirdymor i gryfhau ein gwydnwch gwladol rhag sioc neu fygythiad allanol a allai aflonyddu'n aruthrol ar ein ffordd o fyw, gan gynnwys oddi wrth y byd naturiol. Bydd felly angen i ni ddibynnu llai ar eraill a sicrhau y gallwn gynnal ein cadwyni cyflenwi, sicrwydd ynni a'n mynediad at nwyddau hanfodol hyd yn oed mewn argyfwng. Mae hefyd yn golygu y bydd raid i ni ddatblygu mesurau newydd i ragweld a pharatoi am y risgiau a ddaw gyda datblygiadau gwyddonol neu dechnolegol, ym maes AI neu fioleg er enghraifft, ac a allai ryngweithio â bygythiadau eraill i'r DU.

22. Bydd y Strategaeth Gwydnwch newydd yn dyfnhau ein dealltwriaeth o wydnwch presennol y DU a chefnogi cymdeithas sifil a'r sector cyhoeddus i ddelio'n well â risg a'r pethau sy'n ein gwneud yn fregus. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad yn Uwch-Gynhadledd NATO yn Vilnius i ddatblygu Amcanion Gwydnwch Cenedlaethol, saith Gofyniad Sylfaenol NATO ar gyfer gwydnwch, ac Amcanion Gwydnwch Traws-Gynghrair. Bydd y Strategaeth hefyd yn lansio cyfathrebu cyhoeddus i hysbysu'r cyhoedd sut i baratoi ar gyfer risg. Cefnogir hyn gan hyfforddiant Academi Gwydnwch y DU i bawb ar draws ein cymdeithas sy'n chwarae rôl hanfodol yn ein gwydnwch gwladol. Fel rhan o hyn, bydd ein cynlluniau ar gyfer Amddiffyn Domestig yn canolbwyntio ar warchod seilwaith gwladol hanfodol a herio difrod bwriadol mewn argyfwng (efallai ar sail y Lluoedd Wrth Gefn). Bwriadwn hefyd gynnal Ymarferion Cenedlaethol blynyddol i brofi ein paratoadau cymdeithas-gyfan.


23. Rydyn ni'n sefydlu rhwydwaith newydd o Ganolfannau Bio-ddiogelwch Gwladol drwy fuddsoddi dros £1 biliwn yn amddiffyniad y DU rhag digwyddiadau, damweiniau ac ymosodiadau biolegol. Bydd yr adroddiad ar y Strategaeth Diogelwch Biolegol yn nodi'r cynnydd a wnaed gyda chreu Radar Bio-fygythiadau newydd, Consortiwm Fforenseg Microbaidd traws-DU a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol ar herio Ymwrthedd Gwrth-ficrobaidd. Rydyn ni hefyd yn buddsoddi hyd at £520m mewn cyfleusterau Diagnostig,

Therapiwtig a Chreu Brechiadau yn y DU, ynghyd â chyllid ar gyfer cyfleusterau Labordai Bio-ddiogelwch Uwch.

24. Bydd y Strategaethau Diwydiannol, Masnach a Mwynau Hanfodol newydd yn cryfhau cydweithrediad rhyngwladol er mwyn cynyddu buddsoddiad a mynediad at gyllid, a gwella cymorth ac arweiniad i fusnesau gan y llywodraeth i'w helpu i ddeall a lliniaru risg. Bydd ein Canolfan Cadwyni Cyflenwi newydd yn adolygu mewnbynnau, ystyried effaith tueddiadau'r dyfodol ar alw, a phenderfynu pa gamau allai fod angen eu cymryd – fel cryfhau capasiti domestig, arallgyfeirio neu bartneriaethau rhyngwladol strategol i wella gwydnwch. Bydd ein Strategaeth Fasnach yn cyflwyno mesurau pellach i gefnogi busnesau i gryfhau eu diogelwch economaidd.

25. Mae ein sicrwydd ynni'n hanfodol i'n diogelwch gwladol, sefydlogrwydd economaidd, gwasanaethau hanfodol a gallu gyrru datblygiadau technolegol newydd mewn meysydd fel AI. Rydyn ni'n symud i ffwrdd o fewnforio tanwyddau ffosil a thuag at drydan wedi'i gynhyrchu'n ddomestig a gan ein cynghreiriaid. Rydyn ni wedi gwahardd mewnforio olew a nwy o Rwsia ac yn creu cadwyn gyflenwi niwclear wraniwm fyd-eang sy'n hollol rydd o ddylanwad Rwsiaidd. Rydyn ni hefyd wedi codi'r gwaharddiad ar wynt ar y lan, caniatáu mwy nag erioed o brosiectau pŵer solar ac yn parhau i arloesi a buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill. Mae gostwng prisiau ynni'n parhau i fod yn rhan hanfodol o helpu ein gwlad i arloesi a thyfu ein heconomi. Ynghyd â gweithredu i gryfhau ein sicrwydd ynni domestig, byddwn yn gweithio'n rhyngwladol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a'i risgiau i ddiogelwch gwladol, sefydlogrwydd ariannol a thwf gwyrdd yn y DU. Bydd ein Cynghrair Pŵer Glân Byd-Eang yn cynnal y momentwm rhyngwladol o bontio at ynni glân, yn gyrru buddsoddiad mewn marchnadoedd newydd ac economïau datblygol, ac yn cryfhau gwydnwch cadwyni cyflenwi ynni glân, gan gynnwys i'r DU. Gyda'n partneriaid, rydyn ni'n gweithio i ddiwygio'r system ariannol fyd-eang i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i fynd i'r afael â heriau byd-eang o'r fath.

# Piler (ii) – Cryfder Dramor





1. Ail biler NSS 2025 yw cyflawni cryfder dramor drwy ddefnyddio (a chyfuno) holl bwerau'r wladwriaeth a phwerau gwladol gan gynnwys amddiffyn, diplomyddiaeth, masnach, cyfrin-wybodaeth, gorfodi'r gyfraith, gwyddoniaeth, technoleg, addysg a'n cyrhaeddiad diwylliannol.

2. Bydd gallu sicrhau ein dylanwad dramor yn fwy heriol yn y blynyddoedd nesaf wrth i wrthwynebwyr weithredu'n ymosodol a chyfunol yn erbyn ein buddiannau. Mae hefyd angen i ni ystyried bod rhai o'n cynghreiriau traddodiadol yn gwneud newidiadau i'w blaenoriaethau rhyngwladol mewn ffyrdd fydd â goblygiadau mawr i ni. Bydd cydweithrediad effeithiol yn dod yn fwyfwy pwysig os am ddarparu ein hamcanion ond, ar yr un pryd, bydd yn anoddach gwneud hynny nag yn y gorffennol. Mae angen i'n diplomyddiaeth a'n polisïau felly addasu i fyd mwy newidiol a thrafodiadol lle y bydd mesurau economaidd a milwrol yn cael eu defnyddio'n amlach i ennill mantais ac i fargeinio.

3. Byddwn ninnau wrth ymateb yn cryfhau'r rhannau o'n dulliau diogelwch gwladol sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, fel NATO, y G7 a'r 'Pum Llygad'. Yn gyntaf, gan adeiladu ar ein dulliau hanesyddol, bydd diogelwch cyfunol yn parhau i fod yn un o gonglfeini ein strategaeth o atal ac amddiffyn rhag treisgarwch. Ond i wneud hyn bydd angen ymdrech gydnerth flaenoriaethol i adfer sefydlogrwydd a diogelwch yn yr Ewro-Iwerydd, gan ddechrau gyda'n cefnogaeth o Wcráin. Yn ail, byddwn yn ceisio adnewyddu ac yna sicrhau dyfnder mwy strategol i'n cynghreiriau allweddol, gan ddechrau gyda'r UDA a'r Undeb Ewropeaidd, i gryfhau ein diogelwch ond hefyd ein ffyniant a'n cystadleurwydd hirdymor. Yn drydydd byddwn yn dod â chreadigrwydd newydd i'n partneriaethau rhyngwladol, yn enwedig mewn meysydd polisi newydd fel technoleg. Bydd hyn yn golygu ffocws siarp a blaenoriaethu ymdrech ar y perthnasoedd sy'n ein cynorthwyo orau i ddiogelu ein buddiannau gwladol domestig. Yn olaf, byddwn yn gwneud ymdrech i fod yn fwy cadarn a chyson wrth ymateb i heriau strategol mawr fel effaith Tsieina fel actor byd-eang.

## Adran (1) – Cryfhau ein diogelwch cyfunol




*"Yn y cyfamser, rhaid i ni wynebu'r ffeithiau fel y maen nhw. Nid ein tasg yw gwneud datganiadau trawiadol na defnyddio bygythiadau neu godi braw, ond bwrw iddi'n ddiymdroi a diwyro gyda'r camau a ystyriwn i fod yn angenrheidiol i gwrdd â'r sefyllfa sy'n wynebu'r byd heddiw"* Ernest Bevin, Ysgrifennydd Tramor (1945 – 1951)

4. Diogelwch cyfunol, wedi'i ategu gan gynghreiriau a phartneriaethau ffurfiol, yw carreg sylfaen ein holl ddull o ymdrin â diogelwch gwladol ac yn arf ddeublyg ar gyfer atal ac amddiffyn y DU. Yn arwain hyn oll y mae cynghrair NATO a chwaraeodd ran mor hanfodol mewn cadw'r heddwch ers 75 o flynyddoedd. Mae bron i biliwn o bobl yn yr Ewro-Iwerydd yn cael eu gwarchod gan gymal cyd-amddiffyn (Erthygl V) a chymal hunan-gymorth a chyd-gymorth (Erthygl III) Cytundeb Gogledd yr Iwerydd.

5. Fel un o wledydd gwreiddiol NATO, mae'r DU wedi rhoi pwysigrwydd aruthrol erioed ar y gynghrair. Rydyn ni wedi ac yn dal i fod yr unig wlad Ewropeaidd i gynnig ein hamddiffyniad niwclear i amddiffyn ein cynghreiriaid yn NATO, gan gyfrannu at bob agwedd ar ei gynllunio. Ond mae llwyddiant NATO hefyd wedi dibynnu erioed ar allu addasu a pharodrwydd y cynghreiriaid i weithredu eu haddewidion a rhannu'r baich diogelwch. Ar ôl cwblhau'r SDR felly, byddwn yn gweithredu dull "NATO'n gyntaf" wrth drefnu amddiffyniadau'r DU. Yn benodol mae'n golygu y bydd NATO yn flaenllaw o ran sut fydd y lluoedd arfog yn cynllunio, buddsoddi, hyfforddi ac arfogi eu hunain.

## Mae gan y DU rôl strategol mewn NATO




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol NATO 2024; Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: Ymrwymiadau gweithredol lluoedd arfog y DU 2025

6. Mae dulliau eraill y gallwn eu defnyddio i gryfhau ein diogelwch cyfunol ar draws yr Ewro-Iwerydd. Drwy ein rôl arweiniol yn y Fyddin Ymgyrchol Ar y Cyd, byddwn yn darparu mwy o atal yn rhanbarthau'r Uchel-Ogledd a Gogledd Ewrop y mae ymgiprys cynyddol amdanynt, tracio bygythiadau posib i seilwaith tanfor a monitro fflydoedd cysgodol Rwsia. Byddwn hefyd yn ceisio cryfhau'r Fyddin Ymgyrchol Ar y Cyd gyfunol â Ffrainc drwy Uwch-Gynhadledd Ffrainc / Y DU 2025.

7. Mae dyfodol Wcráin yn rhan hanfodol o ddiogelwch cyfunol yr Ewro-Iwerydd. Mae Rwsia'n parhau i ymosod yn ddidrugaredd ar bobl Wcráin a gwneud galwadau annerbyniol am feto ar hunan-amddiffyniad Wcráin. Dyna pam fod y DU yn parhau i gefnogi hunan-amddiffyniad Wcráin – heddiw ac yn y dyfodol. Wrth gefnogi Wcráin, ein nod hanfodol yw atal mwy o ymosodiadau gan Rwsia.

8. Mae cytundeb arhosol yn Wcráin yn un sy'n amddiffyn sofraniaeth a diogelwch Wcráin a gadael i bobl y wlad benderfynu eu dyfodol eu hunain, heb fygythiad trais na phwysau gormesol. Yn union fel y cyd-safwn ag Wcráin yn ystod y rhyfel, byddwn hefyd yn gwneud yr un ymrwymiad yn ei hymdrechion heddwch. Drwy'r bartneriaeth can mlynedd rhwng y

DU ac Wcráin, rydyn ni'n creu'r fframwaith ar gyfer dyfodol gwell i bobl Wcráin. Fel rhan o'n hymdrechion pellach, ni oedd yr unig wlad Ewropeaidd i ymgynnull Grŵp Cyswllt Amddiffyn Wcráin. Gan weithio'n agos â Ffrainc, rydyn ni hefyd wedi sefydlu "Clymblaid y Parod" o 31 o wledydd i gynyddu'r cymorth Ewropeaidd i Wcráin.

**Mae'r DU yn chwarae rôl arweiniol mewn cefnogi Wcráin i amddiffyn ei hun yn erbyn ymosodiadau Rwsia a thyfu ei heconomi, gan gynyddu'r pwysau ar Rwsia a helpu Wcráin i ennill cyfiawnder**



Cyfanswm o **£18bn** wedi'i ymrwymo i **gefnogi Wcráin**

£5bn o gymorth anfilwrol | £13bn* o gymorth milwrol

*yn cynnwys £2.26bn mewn Benthyciad Carlam Refeniw Eithriadol

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

**Cymorth milwrol**

- **£3bn** y flwyddyn, a **£2.26bn** yn cael ei ariannu gan elw o asedau Rwsiaidd wedi eu rhewi
- Dros **54,000** o bersonél Wcrainaidd wedi eu hyfforddi
- Cyfarpar milwrol yn cynnwys **30,000** o ddrôns ymosod a chudd-wylio newydd, gyda buddsoddiad pellach i gynyddu hyn i **100,000**

**Cymorth anfilwrol**

- **£400m** ar gyfer diogelwch a gwydnwch ynni
- **£477m** mewn cymorth dyngarol brys
- **£4.1bn** mewn cymorth ariannol drwy warantau gan Fanc y Byd

**Sancsiynau gan y DU yn erbyn Rwsia**

- Sancsiynau ar dros **2,500** o dargedau Rwsiaidd
- Costiodd sancsiynau olew'r DU yn Ch1 2025 **$1.6bn** i danceri Rwsia
- Sancsiynau ar dros **250** o longau yn y fflyd gysgodol

**Ennill cyfiawnder**

- **£2.3m** i'r Llys Troseddol Rhyngwladol
- Un o'r gwledydd wnaeth sefydlu'r Gofrestr Ddifrod Ryngwladol
- **£11.3m** i ymchwilio i droseddau rhyfel

Ffynhonnell: Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Gartref, yr Adran Busnes a Masnach: Cymorth i Wcráin, Mai 2025

9. Un o wersi creiddiol y rhyfel yn Wcráin yw pwysigrwydd mesurau fel sancsiynau a rheolaeth ar allforion. Er mwyn atal yn effeithiol yn y dyfodol, bydd angen ymgorffori mwy o fesurau economaidd yn ein harfdy amddiffyn a diogelwch. Dyfeisiwyd ein sancsiynau yn erbyn Rwsia i warafun y modd iddi barhau ei rhyfel, gan gyfyngu mynediad at ffynonellau refeniw pwysig a nwyddau a thechnoleg hanfodol.

10. Mae sancsiynau a mesurau eraill yn fwyaf effeithiol o'u gweithredu mewn cyd-ymdrech â'n partneriaid rhyngwladol, yn enwedig aelodau'r G7 a'r Pum Llygad. Fel rhan o'n Rhaglen Atal Economaidd, rydyn ni'n gweithio i weithredu a gorfodi sancsiynau'n fwy effeithiol, gan gynnwys drwy sefydlu'r Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Masnach sydd â phwerau i roi cosb ariannol sifil am dorri sancsiynau masnach.

## Adran (2) – Adnewyddu a dyfnhau ein cynghreiriau



Baneri'r Cynghreiriaid a NATO ar hyd y Mall at Balas Buckingham i ddathlu pen-blwydd y Gynghrair yn 75 oed yn Ebrill 2024.

11. Mae ein cynghreiriau a phartneriaethau'n fwy anhepgor fyth i'n diogelwch wrth i risg ac ansicrwydd gynyddu. Drwy ddyfnhau ein cynghreiriau a chreu partneriaethau newydd, gallwn gyfuno ein cryfder, cronni adnoddau ariannol a thechnolegol, cryfhau gwydnwch a manteision economaidd i'n pobl, a lliniaru yn erbyn risg. Wrth i ni adnewyddu ein perthynas â'r UE ac adfywio ein cysylltiad â'r Unol Daleithiau, byddwn yn gosod nod i ni ein hunain o sicrhau bod y cynghreiriau hyn wedi eu diffinio gan fwy o ddyfnder strategol ynghyd â chyd-gyfnewid a chyd-fudd.

12. Yr UDA yw cynghreiriad amddiffyn a diogelwch pwysicaf y DU o hyd. Mae gan y berthynas sylfeini strwythurol dwfn fel ein hymrwymiad i NATO, rhannu cyfrin-wybodaeth a niwclear a rhyngweithrediad ein lluoedd arfog. Mae yna hefyd gyfleoedd newydd sylweddol yn codi ar gyfer cydweithrediad dyfnach ar faterion fel AUKUS a thechnoleg

amddiffyn. Y DU oedd y wlad gyntaf i lunio cytundeb economaidd newydd â'r llywodraeth newydd. Ond mae llawer mwy y gallwn ei wneud i gryfhau ein cynghrair mewn ffordd sy'n adlewyrchu natur newidiol pwerau'r byd. Dyna pam ein bod yn awyddus i greu partneriaeth technoleg a gwyddoniaeth newydd uchelgeisiol â'r UDA, i gadarnhau'r bartneriaeth glos hon.

13. Mae'r DU hefyd yn creu partneriaeth strategol newydd gyda'r UE ar sail cydweithrediad agosach er mwyn tyfu'r economi, rhoi hwb i safonau byw, gwarchod ein ffiniau a chadw'r DU yn ddiogel. Bydd y Bartneriaeth Amddiffyn a Diogelwch newydd rhwng y DU a'r UE yn cefnogi hyn ac yn hyrwyddo cydweithrediad agosach ar nifer o feysydd o ddiogelwch morwrol, diogelwch y gofod, delio â bygythiadau hybrid a chryfhau gwydnwch ein seilwaith hanfodol, i fudo anghyfreithlon, iechyd byd-eang a chyllido anghyfreithlon. Bydd deialog newydd pob chwe mis i drafod polisi tramor a diogelwch yn hwyluso ymgynghori strategol ar themâu a materion daearyddol o ddiddordeb cyffredin fel Rwsia / Wcráin, Gorllewin y Balcans, yr Indo-Basiffig a bygythiadau hybrid. Bydd y bartneriaeth hefyd yn golygu y gallwn drafod cydweithredu'n agosach a chyd-fuddsoddi yn sylfeini diwydiannol ein sectorau amddiffyn, mewn ffordd fydd yn hybu twf economaidd a swyddi ar y ddwy ochr a helpu i atal arwahanu. Drwy wneud hyn byddwn yn gobeithio sefydlu'r cydweithrediad mwyaf effeithiol rhwng NATO a'r UE gan gydnabod rôl flaenllaw NATO mewn amddiffyn Ewrop ond hefyd pwysigrwydd cynyddol yr UE fel actor geo-wleidyddol. Mae ein cydweithrediad gwyddonol yn ychwanegu lefel arall at ddyfnder strategol y berthynas. Mae rhan y DU yn rhaglenni Horizon Europe a Copernicus yn golygu bod gan gymuned wyddonol y DU fynediad at raglen ymchwil gydweithredol fwyaf y byd ac mae hyn bellach yn cynnwys ymchwil ar y cyd ar dechnolegau cwantwm a gofod.

14. Mae perthynas ddwyochrog â'n cymdogion Ewropeaidd hefyd yn hollbwysig i'n diogelwch gwladol. Mae ein perthynas amddiffyn a diogelwch â Ffrainc heb ei hail yn Ewrop. Fel yr unig wledydd arfau niwclear yn Ewrop, mae'r DU a Ffrainc wedi hen gydnabod y byddai bygwth buddiannau hanfodol y naill hefyd yn bygwth buddiannau hanfodol y llall. Mae gwaith ar droed i ddyfnhau ac ehangu ein cydweithrediad gan adeiladu ar Gytundebau Lancaster House a chyn Uwch-Gynhadledd 2025 rhwng y ddwy wlad. Rydyn ni hefyd yn cryfhau ein perthynas â'r Almaen gan adeiladu ar Gytundeb Trinity House i greu cytundeb dwyochrog newydd a gweithio gyda'n gilydd ar ddatblygu arbenigedd i daro'n gywir o hirbell. Fel yr E3, rydyn ni'n gweithio'n agosach â Ffrainc a'r Almaen ar Wcráin a materion eraill.

15. Byddwn yn parhau i achub ar gyfleoedd newydd i gydweithredu yn yr Ewro-Iwerydd. Rydyn ni'n dyfnhau ein partneriaeth amddiffyn a diogelwch â Chanada a chryfhau'r cydweithrediad ar feysydd o AI i fio-weithgynhyrchu ac asio niwclear. Bydd ein cytundeb newydd â Gwlad Pŵyl yn cryfhau ystlys ddwyreiniol NATO i ddelio â bygythiadau hybrid a chydweithredu ar amddiffyn awyr a thaflegrau, gyda manteision helaeth i economi'r ddwy wlad. Ar ystlys ogleddol NATO, mae ein partneriaeth amddiffyn strategol â Norwy'n darparu ein blaenoriaethau diogelwch cyffredin yng Ngogledd yr Iwerydd a'r Uchel-Ogledd. Mae'r Eidal yn bartner pwysig ar ystlys ddeheuol NATO – rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd ar y Rhaglen Brwydro Awyr Byd-Eang a chryfhau rhyngweithrediaeth ein grwpiau cludlongau ymosod. Ar y groesffordd rhwng y Môr Du, y Cawcasws, y Dwyrain Canol ac Affrica, mae Twrci'n anhepgor i fuddiannau diogelwch y DU ar draws Ewrop ac ar ystlysau NATO ac yn parhau i fod yn bartner NATO a dwyochrog allweddol i'r DU, gyda chydweithrediad cryf o ran diwydiant amddiffyn ac integreiddio milwrol.

## Adran (3) – Datblygu perthnasoedd newydd mewn meysydd newydd



Grŵp Cludlongau Ymosod y DU ar ymdaith aml-wladol i'r Indo-Basiffig.

16. Mae realiti caled ein daearyddiaeth, diogelwch a masnach yn mynnu rhoi blaenoriaeth i ranbarth yr Ewro-Iwerydd fel rhan o roi "NATO'n gyntaf". Ond mae'r dystiolaeth bod gwledydd fel Rwsia, Tsieina, Iran a Gogledd Korea'n cydweithredu ar draws gwahanol theatrau – weithiau'n fanteisgar dro arall drwy ddyfnhau cysylltiadau strategol – yn dangos pa mor rhyng-gysylltiedig yw'r Ewro-Iwerydd gyda gwahanol theatrau fel y Dwyrain Canol a'r Indo-Basiffig, lle y mae gan y DU bartneriaethau cryf yn barod. Fel y noda'r SDR, ar ôl yr Ewro-Iwerydd, dyma'r ddau ranbarth blaenoriaeth arall ar gyfer amddiffyn y DU.

17. Hefyd, mae natur chwâl a gwasgarog pŵer rhyngwladol yn y byd heddiw'n golygu mai mater o fuddiannau gwladol caled yw bod angen edrych y tu allan i'n cymdogaeth agos. Dyma pam ein bod yn awyddus i greu partneriaethau modern gydag economïau llewyrchus ac arloesol mewn rhannau eraill o'r byd. Yn benodol, mae grŵp daearyddol-wasgarog o wledydd, llawer ohonynt yn wledydd y Gymanwlad, y mae'r DU yn rhannu cymuned fuddiannau gadarn â nhw. Maen nhw'n ymestyn o Ganada yng Ngogledd yr Iwerydd i Seland Newydd yn Oceania ac yn cynnwys gwledydd y Gwlff, India, Singapore, De Korea, Indonesia, Japan ac Awstralia. Mae'r economïau aeddfed hyn yn tyfu'n gyflym ac yn dibynnu ar y fasnach rydd o nwyddau ac adnoddau, gyda hyder eu marchnadoedd ariannol yn seiliedig ar sadrwydd gwleidyddol, diogelwch morwrol a chadw at gyfraith forwrol ryngwladol. Mae gennyn ni fudd cyffredin mewn gweithio gyda nhw yn erbyn pwysau economaidd o'r tu allan a'r perygl y gallai'r drefn economaidd ryngwladol gael ei darnio'n barthau dylanwad i'r pwerau mawr.

18. Y tu allan i'n cymdogaeth agos, rydyn ni'n ymrwymedig i gyfrannu at ddiogelwch a sefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol, drwy ein hôl-troed diplomyddol, dyngarol, milwrol a ffyniant, gan gynnwys cyfanswm masnach o £60 biliwn. Oherwydd bod y rhanbarth mor bwysig i gymaint o flaenoriaethau'r DU – gan gynnwys rhai masnach, buddsoddi, ynni a dyngarol – ac yn gartref i gannoedd o filoedd o wladolion Prydeinig, mae bygythiadau i ddiogelwch rhyngwladol yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica'n cael effaith uniongyrchol ar fuddiannau'r DU. Mae cyfraniad y DU i'r rhanbarth yn cynnwys cefnogaeth i'r Glymblaid Fyd-Eang i drechu Daesh, y Lluoedd Morwrol Cyfunol ac ymdrechion i sicrhau rhyddid mordwyo yn y Môr Coch. Mae gennyn ni gysylltiadau dwyochrog dwfn a pharhaus â'r Gwlff gan gynnwys partneriaethau strategol eang ar draws y rhanbarth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau Cytundeb Masnach Rydd â Chyngor Cydweithredu'r Gwlff. Rydyn ni'n ymrwymedig i weld Israel ddiogel a di-risg a gweld Palesteina'n mynd yn wladwriaeth ar wahân. Mae pobl Israel a Phalesteina'n haeddu byw mewn heddwch, ffyniant a diogelwch. Rydyn ni'n gweithio i atal dylanwad dadsefydlogi Iran a'i rhwystro rhag datblygu arfau niwclear.

19. Mae India'n wlad yr ydyn ni'n awyddus i gael partneriaeth strategol ddiffuant â hi, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd cynyddol yn y system ryngwladol. Mae ein cytundeb masnach rydd newydd yn torri tir newydd gydag un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, gan gynyddu'r cyfnewid rhwng ein marchnadoedd a lleihau rhwystrau masnachol. Drwy ein Rhaglen Diogelwch Technoleg, rydyn ni'n datgloi buddsoddiad ar draws ystod o dechnolegau arloesol a thrwy ein Partneriaeth Amddiffyn rydyn ni'n cydweithredu ar ddatblygu ein galluoedd.


20. Mae perthnasoedd a phartneriaethau dwyochrog y DU yn yr Indo-Basiffig wedi eu dyfeisio i gryfhau'r diogelwch rhyngwladol y mae ein ffyniant cyffredin yn dibynnu arno. Ymhlith eraill maen nhw'n cynnwys ein Partneriaeth Strategol Fyd-Eang â Gweriniaeth Korea, y Cytundeb Cydweithredu ar Amddiffyn a Diogelwch a chytundeb AUKUS â'r UDA ac Awstralia, ein Partneriaeth Strategol Fyd-Eang a chyd-ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o awyrennau ymladd gyda Japan ochr yn ochr â'r Eidal, a chydweithredu ar wyddoniaeth a thechnoleg gyda Seland Newydd. Byddwn yn cadarnhau ein buddsoddiad yn sefydlogrwydd y rhanbarth drwy hwylio Grŵp Cludlongau Ymosod y DU i Awstralia gan atgyfnerthu ymrwymiad y DU i Indo-Basiffig rydd ac agored. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn Nhrefniadau Amddiffyn y Pum Llygad gydag Awstralia, Malaysia, Seland Newydd a Singapore i hyrwyddo cydweithrediad a rhyngweithrediad yn y rhanbarth, fel drwy gyfranogiad y DU yn BERSAMA LIMA 24 y llynedd.

21. Mae natur ganolog Môr De Tsieina a Chulfor Taiwan i fasnach a chadwyni cyflenwi byd-eang yn cadarnhau pa mor bwysig yw sefydlogrwydd y rhanbarth i'r DU. Mae risg arbennig o waethygu o gwmpas Taiwan. Safbwynt y DU yw y dylai cwestiwn Taiwan gael ei ddatrys yn heddychlon gan bobl ar y ddwy ochr i'r Culfor drwy ddeialog adeiladol a heb fygwth defnyddio grym na phwysau gormesol. Ni chefnogwn unrhyw ymdrechion unochrog i newid y sefyllfa bresennol. Fel rhan o'n perthynas answyddogol gref â Thaiwan, byddwn yn parhau i gryfhau a meithrin cysylltiadau mewn ystod eang o feysydd, wedi eu hategu gan werthoedd democrataidd cyffredin.

22. Mae rhaglen AUKUS yn parhau i fod yn brosiect blaenoriaeth i amddiffyn a diogelwch cyfunol y DU, fel rhan o ddull NATO'n gyntaf ond nid NATO'n unig. Bydd yr UDA, Awstralia a'r DU yn cyd-ddatblygu'r fflyd ddiweddaraf o longau tanddwr ymosod niwclear rhyngweithredol, at ddefnydd y Llynges Frenhinol a Llynges Frenhinol Awstralia, ynghyd â'r technolegau amddiffyn diweddaraf eraill i gryfhau ein galluoedd atal. Bydd natur ar y cyd y fenter hon yn creu sylfeini diwydiannol mwy gwydn yn y tair gwlad, cynyddu'n aruthrol y rhyngweithrediad rhwng partneriaid AUKUS a chaniatáu i ni ennill mantais hollbwysig yn y maes morwrol i gynnal heddwch a sefydlogrwydd.

23. Mae ein haelodaeth o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Pharhaus ar gyfer Partneriaeth Traws-Basiffig (CPTPP) yn enghraifft o fanteision cysylltiadau a phartneriaeth ehangach. Mae wedi cryfhau ein cysylltiadau masnach â nifer o'r economïau datblygol sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth. Byddwn yn pwyso am CPTPP dyfnach gydag aelodaeth a chysylltiadau ehangach i flociau mawr eraill fel Cymdeithas Cenhedloedd De-Ddwyrain Asia (ASEAN) a'r UE.

## Mae perthnasoedd y DU yn yr Indo-Basiffig yn cefnogi diogelwch rhanbarthol




24. Bydd creadigrwydd a pharodrwydd yn arbennig o bwysig os bydd cyfle i fynd ymhellach na phartneriaethau traddodiadol. Bydd ein polisi tramor yn gwneud mwy i addasu i bwysigrwydd pwerau datblygol fel Nigeria a Brasil sy'n tyfu mewn pwysigrwydd rhyngwladol ac yn cyflwyno cyfleoedd newydd i ddyfnhau cysylltiadau buddsoddi a chydweithio ar faterion fel newid hinsawdd, gwyddoniaeth a thechnoleg.

25. Bydd hefyd angen i ni goleddu partneriaethau agosach â gwledydd yn Affrica o ystyried poblogaeth gynyddol ac ifanc y cyfandir, a chyfleoedd twf a masnach. Yn benodol, bydd angen i ni helpu i liniaru bygythiadau o'r ansefydlogrwydd ar ystlys ddeheuol NATO ar gyfandir sy'n dod yn gynyddol fwy geo-wleidyddol gystadleuol. Mae ein Partneriaethau Diogelwch ac Amddiffyn Strategol â Nigeria, Kenya a Ghana, er enghraifft, yn helpu i ddarparu buddiannau domestig y DU a chryfhau galluoedd Affricanaidd – gan hwyluso

cydweithrediad ar draws sbectrwm eang o fygythiadau'n cynnwys terfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol, bygythiadau hybrid a materion morwrol.

26. Mae cysondeb yn hanfodol i ateb yr her geo-strategol a gyflwynir gan Tsieina mewn cytgord â phartneriaid ar draws y G7 a thu hwnt. Mae Tsieina yn bŵer byd-eang sy'n profi moderneiddio economaidd, milwrol a thechnolegol hynod gyflym ar raddfa ddigynsail yn hanes y byd. Mae gan benderfyniadau gweithredol Tsieina, ar faterion o ddiogelwch rhyngwladol i economi'r byd, datblygiadau technolegol neu newid hinsawdd, botensial i gael effaith enfawr ar fywydau pobl Prydain. Mae pob piler o'r Fframwaith Strategol yn cynnwys mesurau wedi eu dyfeisio i rymuso ein diogelwch yng nghyswllt Tsieina a chyrff llywodraeth eraill a allai danseilio ein diogelwch.

27. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol diplomyddiaeth mewn ateb yr her hon. Mae'r broses o archwilio ein buddiannau yng nghyswllt Tsieina, yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth yn ei maniffesto, bellach ar ben. Mae'r gwaith hwn yn cadarnhau bod angen ymgysylltu a chydweithrediad ymarferol uniongyrchol a lefel uchel lle bo'n fanteisiol i'n buddiannau gwladol – tebyg i holl aelodau eraill y G7. Mewn byd mwy tanllyd, mae angen i ni leihau'r risg o gamddealltwriaeth a chyfathrebu gwael sydd wedi nodweddu'r berthynas yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd rôl fyd-eang Tsieina, mae'r wlad yn gynyddol arwyddocaol ar gyfer delio â'r heriau mwyaf, o newid hinsawdd i iechyd byd-eang a sefydlogrwydd ariannol. Byddwn yn gweithio i greu perthynas fasnach a buddsoddi sy'n cefnogi twf parhaus a gwydn a hybu economi'r DU. Eto, mae nifer o feysydd pwysig fel hawliau dynol a seiber-ddiogelwch lle y mae gwahaniaethau llwyr rhyngom a thensiynau'n debygol o barhau. Mae achosion o ysbïo gan Tsieina, ymyrryd yn ein democratiaeth a thanseilio ein diogelwch economaidd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd ein hymateb diogelwch gwladol felly'n parhau i fod ar sail bygythiad gan gryfhau ein hamddiffyn ac ymateb gyda gwrth-fesurau cryf. Byddwn yn parhau i warchod cymuned Hong Kong yn y DU, ac eraill, rhag gormes traws-wladol.


28. Mae Archwiliad Tsieina felly'n argymell cynyddu ein galluoedd o ran Tsieina ar draws y system diogelwch gwladol er mwyn gallu ymateb yn gryfach, yn ogystal â'n gwydnwch a'n parodrwydd ar sail gwybodaeth ddyfnach a hyfforddiant. Mae hynny'n cynnwys creu sail ar gyfer perthynas economaidd gyd-gyfnewidiol a chytbwys, drwy roi arweiniad i rai yn y sectorau addysg uwch neu breifat y mae Tsieina yn bartner pwysig iddynt. I sicrhau bod y cyhoedd, busnesau, academia a phartneriaid yn deall ein dulliau, a bod ganddynt yr arweiniad iawn i'w helpu i wneud penderfyniadau diogel, byddwn yn dod â'r canllawiau presennol ar Tsieina at ei gilydd ar hỳb gov.uk newydd ac yn parhau i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr ar sut i ddelio gyda Tsieina.

29. Mae diplomyddiaeth yn rhan hanfodol o sicrhau ein cryfder dramor ac yn gofyn am amrywiaeth o ddulliau. Mae'r DU yn glir bod y sefydliadau aml-ochrog a'r sefydliadau rhyng-lywodraethol fel y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Iechyd y Byd a'r Gymanwlad yn parhau i fod yn allweddol i gynnydd ar faterion byd-eang o newid hinsawdd a bio-ddiogelwch i'r nodau datblygu cynaliadwy ac atal gwrthdaro. Mae gan y DU hefyd fudd economaidd cryf mewn sicrhau bod y Gronfa Ariannol Ryngwladol a Sefydliad Masnach y Byd yn parhau i fod yn bwrpasol ac effeithiol. Yn aml iawn, mae angen diwygio, moderneiddio a buddsoddi yn y sefydliadau hyn. Yn defnyddio ein harbenigedd cryf ar draws y meysydd hyn felly, un o amcanion strategol y DU fydd ailwampio'r systemau

datblygu a dyngarol rhyngwladol, cefnogi mesurau diwygio UN80 a chryfhau'r sefydliadau ariannol rhyngwladol.

30. Gan roi blaenoriaeth i leihau tlodi a datblygu cynaliadwy, mae angen i'n gwariant ar ddatblygu hefyd gefnogi ein diogelwch a chanolbwyntio ar effaith a rhestr lai o wledydd a materion. Rhaid iddo fynd i'r afael â bygythiadau ar lefel ryngwladol gan ystyried beth fydd yn ennill mantais gymharol i'r DU. Arhoswn yn ymrwymedig i fynd yn ôl at wario 0.7% o GNI ar ddatblygu pan fydd amgylchiadau ariannol yn caniatáu ond byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau arloesol i ddarparu ffynonellau cyllid newydd, gan gynnwys defnyddio gwarantau, ac opsiynau sy'n defnyddio mwy o gyllid preifat.

# Piler (iii) – Cynyddu galluoedd sofran a thactegau anghonfensiynol




1. Mae trydydd piler NSS 2025 yn ymwneud â chryfhau ein galluoedd sofran a thactegau anghonfensiynol mewn meysydd hanfodol i'n diogelwch gwladol a'n cystadleurwydd rhyngwladol. Drwy wneud hynny, byddwn yn cyplysu ein hagenda diogelwch gwladol yn well â'n cenhadaeth i dyfu'r economi a chreu mwy o gyfleoedd i bobl Prydain. Mae hynny'n golygu dibynnu llai ar eraill gan gynnwys gallu ein gwrthwynebwyr i roi pwysau gormesol a rheolgar arnom. Ond bydd hefyd yn caniatáu i ni gynyddu ein gwerth i'n cynghreiriaid a rhoi mwy o fantais i ni wrth wneud busnes gyda rhai sydd ag asedau sofran y ceisiwn fynediad atynt.

2. Wrth wneud hyn, bydd angen edrych yn ehangach ar y galluoedd diogelwch gwladol fydd ei angen arnom i gynnal ein dylanwad gwladol a phenderfynu ein dyfodol. Mae hyn yn amrywio o ddiwydiannau traddodiadol fel adeiladu llongau a niwclear i dechnolegau newydd ac arloesol. Mewn rhai achosion bydd angen i ni fod yn wladwriaeth fwy gweithredol sy'n barod i ymyrryd yn ddyfnach yn ein heconomi, fel y gwnaethom i ddiogelu dyfodol y diwydiant dur. Mewn meysydd eraill, bydd y llywodraeth yn ceisio lleihau rheoleiddio a biwrocratiaeth i greu'r amgylchedd gorau posib ar gyfer arloesi.

3. Fel cam cyntaf, byddwn yn cryfhau sylfaen diwydiannol craidd ein sector amddiffyn gan roi ffocws ar gynyddu gwydnwch ein stoc-bentyrrau a chryfhau ein parodrwydd am ryfel. Yn ail, byddwn yn adnabod, diogelu a meithrin galluoedd sofran eraill sy'n gwbl hanfodol i'n sylfaen diwydiannol a'n cystadleurwydd hirdymor fel gwlad. Yn drydydd, byddwn yn sianelu ein cryfderau gwladol penodol at strategaethau anghonfensiynol. Bydd yn golygu defnyddio galluoedd unigryw neu arloesol i gryfhau ein cynghreiriau a rhoi mantais i ni dros ein gwrthwynebwyr a'n cystadleuwyr.

## Adran (1) – Ail-adeiladu sylfaen diwydiannol ein sector amddiffyn




Lansio HMS Venturer, y Ffrigad Math 31 Inspiration Class cyntaf, yn Nociard Rosyth.

4. Wrth i'r amgylchedd bygythiadau waethygu, bydd sylfaen ddiwydiant ac amddiffyn fwy sofran, deinamig ac arloesol yn bwysicach nag erioed. A rhaid i ni sicrhau bod difidend amddiffyn yn troi'n swyddi, sgiliau a chapasiti diwydiannol hirdymor ar gyfer y DU. Mae hyn yn gwbl hanfodol i'n ffyniant ac i gryfder ac undod Undeb y DU, i gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol a gallu atal ac amddiffyn yn erbyn bygythiadau ar lefel ddomestig a thramor.

5. Ein gallu gwladol pwysicaf yw amddiffyniad niwclear annibynnol y DU sy'n ein gwarchod rhag pwysau gormesol ac atal ymosodwyr. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad "clo triphlyg", sicrhau presenoldeb parhaus ar y môr, adeiladu llongau tanddwr newydd ac uwchraddio'r fflyd. Bydd hyn wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad o £15 biliwn yn y rhaglen 'pennau ffrwydrol' sofran yn y senedd hon a buddsoddiad o £31 biliwn (gyda £10 biliwn wrth gefn) yn y rhaglen Dreadnought i adeiladu dosbarth newydd o longau tanddwr fydd yn barod erbyn y 2030au. Rydyn ni'n ehangu ein galluoedd diwydiannol yn Barrow a Raynesway fel y gallwn adeiladu llong danddwr newydd bob 18 mis.

6. Mae gan y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Amddiffyn gynlluniau i adeiladu un o'r ecosystemau diwydiannol mwyaf deinamig yn y byd ar gyfer amddiffyn, drwy fuddsoddi targed, diwygiadau caffael a chreu marchnad allforio ehangach. Rydyn ni'n cynyddu buddsoddiad mewn sectorau blaenoriaeth drwy Gronfa Gyfoeth Genedlaethol newydd ar gyfer cwmnïau amddiffyn. Byddwn yn ailddiffinio sylfaen diwydiannol ein sector amddiffyn i gynnwys academia, cwmnïau sifil-filwrol defnydd deuol, gwasanaethau ariannol, technolegwyr ac undebau llafur. I ategu hyn, rydyn ni'n ehangu'r Gronfa Buddsoddi Strategol Diogelwch Gwladol, yn buddsoddi mwy mewn cwmnïau sy'n cwrdd â'n gofynion diogelwch gwladol a galluoedd amddiffyn, a datblygu ecosystem technolegau defnydd-deuol cyfnod-cynnar y DU.


7. I gynyddu ein galluoedd sofran, byddwn yn sicrhau bod buddsoddiadau amddiffyn yn cefnogi busnesau'r DU yn well. Byddwn yn adeiladu o leiaf chwe ffatri arfau rhyfel a thrawsnewid ynni newydd a chaffael hyd at 7,000 o arfau hirbell wedi eu hadeiladu yn y DU – fel rhan o ddull "ymlaen o hyd" ar gyfer arfau rhyfel blaenoriaeth. Byddwn yn sefydlu corff Arloesi Amddiffyn newydd ar gyfer y DU i ddod o hyd i a phrynu gwasanaethau a chynhyrchion masnachol arloesol, gwella mynediad at gyllid a chyngor i'r diwydiant. Bydd gweithredu'n ddioed yn allweddol i'n hymdrechion i foderneiddio'r lluoedd arfog. Drwy Ddeddf Caffael 2023, byddwn yn lleihau amseroedd caffael gan ddefnyddio mesurau hyblygrwydd penodol ychwanegol i roi ac addasu contractau. Fel y noda'r SDR, mae hefyd angen ymdrech gydnerth i ddatgloi cyfalaf ac arbenigedd preifat a gwneud i ffwrdd â rhwystrau i fuddsoddi.


8. Mae cystadlu strategol hirdymor yn gofyn datblygu'r genhedlaeth nesaf o alluoedd ar gyfer lluoedd arfog y DU mewn cydweithrediad â'n cynghreiriaid agos. O dan AUKUS, bydd Awstralia, y DU a'r UDA yn dod â'n cymunedau ymchwil a datblygu gorau at ei gilydd i gyd-ddatblygu'r fflyd ddiweddaraf o longau tanddwr ymosod niwclear rhyngweithredol ac i hyrwyddo cyd-ddatblygu a chynhyrchu systemau AI awtonomaidd a'n gallluoedd brwydro tanddwr, cwantwm a'n seiber-alluoedd. Mae'r fenter yn cefnogi ein hagenda dwf a bydd y rhaglen llongau tanddwr yn adeiladu hyd at 12 o longau tanddwr ymosod newydd a chreu 30,000 o swyddi ychwanegol ym Mhrydain. O dan y Rhaglen Brwydro Awyr Byd-Eang (GCAP), bydd yr Eidal, Japan a'r DU yn datblygu awyren chweched-cenhedlaeth, yn cynnwys awyrennau gyda chriw, llwyfannau di-griw, arfau'r genhedlaeth nesaf, rhwydweithiau a rhannu data. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnal degau o filoedd o swyddi awyrofod ar draws y wlad. Byddwn yn cefnogi a chynorthwyo busnesau Prydeinig i fanteisio ar fwy o gydweithrediadau rhyngwladol a chryfhau cymorth y llywodraeth ar gyfer allforion amddiffyn.

9. Bydd arloesi a dysgu wrth galon yr agenda hon. O'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwario o leiaf 10% o'i chyllideb caffael cyfarpar ar dechnoleg newydd. Bydd hefyd yn datblygu Gwe Targedu Digidol i gysylltu systemau arfau'r lluoedd arfog yn well a chynorthwyo penderfyniadau ar y ddaear i dargedu bygythiadau gelynol yn defnyddio AI a meddalwedd newydd.

10. Rydyn ni'n ymgorffori gwersi o brofiad eithriadol Wcráin o ryfela tir, rhyfela drôns a rhyfela hybrid er mwyn datblygu ei dulliau modern ei hun o ryfela. Mae gorfod addasu a chyfuno galluoedd yn sydyn – gan gynnwys AI, drôns masnachol, tarfu ar wasanaethau Lleoli, Llywio ac Amseru (PNT), a chyfathrebu'n ddiogel drwy loeren – wedi dangos pa mor anodd y bydd i gynnal mantais barhaus. Ni allwn gymryd yn ganiataol y bydd unrhyw fantais dechnolegol yn para heb arloesi parhaus. Rhaid gallu darparu hyn dan bwysau rhyfel, gan gynnwys drwy fuddsoddi £4 biliwn ar gyfer systemau awtonomaidd, yn cynnwys drôns.

**Amddiffyn yn tyfu'r economi**




Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Amddiffyn: gwariant rhanbarthol gyda diwydiant 2023/24; Y Weinyddiaeth Amddiffyn: amcangyfrifon cynnal swyddi 2022/23 (diwygiwyd Mai 2025)

## Adran (2) Adnabod, meithrin a gwarchod galluoedd sofran eraill

11. Mae ein galluoedd sofran wedi bod yn hanfodol i amddiffyn a diogelwch y DU erioed, ac i'r hyn y gallwn ei gynnig i'n cynghreiriaid. Fodd bynnag, mewn byd o darfu technolegol, hunan-warchodaeth, cystadlu am adnoddau a siociau cynyddol i'n cadwyni cyflenwi, bydd angen i ni feddwl yn galetach am ba alluoedd fydd ei angen ar y DU i atal grymoedd allanol rhag ymosod ar ein buddiannau gwladol, ac i sicrhau ein cystadleurwydd hirdymor.

12. Mae Strategaeth Ddiwydiannol y llywodraeth yn adnabod wyth sector twf a'r diwydiannau sylfaen sy'n eu hategu. Mae'r strategaeth yn cyflwyno cynllun y llywodraeth i gefnogi'r sectorau a'r diwydiannau hyn, i gydnabod amodau heriol yr economi byd-eang, yn cynnwys tariffau a hunan-warchodaeth. Mae cynlluniau ein sector yn blaenoriaethu diwydiannau arloesol sy'n greiddiol i ddatblygu technolegau at ddefnydd sifil a milwrol. Yn benodol, byddwn yn meithrin sectorau digidol a thechnoleg risg-uchel, elw-uchel a sicrhau ein bod yn adeiladu ein galluoedd sofran yn y meysydd mwyaf strategol bwysig.

13. Bydd datblygu ein dulliau polisi economaidd ein hunain ar gyfer amddiffyn ac ymosod yn dod yn bwysicach os am ddarparu'r agenda hon. Bydd Strategaeth Fasnach y Llywodraeth yn cyflwyno mesurau Amddiffyn Masnach mwy cadarn i fynd i'r afael ag arferion masnach annheg a sicrhau y cefnogir busnesau'n well mewn amgylchedd masnach byd-eang mwy heriol a geo-wleidyddol. Mae Deddf y Diwydiant Dur (Mesurau Arbennig) 2025, wnaeth achub y blaen ar weld y ffwrnais chwyth ddur olaf yn y DU yn cael ei chau, yn enghraifft o'r camau mwy parodol i ddiogelu ein galluoedd sofran yr ydyn ni'n barod i'w cymryd pan fo angen.

14. Mae partneriaethau â sector telathrebu'r DU a chwmnïau technoleg domestig a rhyngwladol blaenllaw eraill yn hollbwysig i gynnal ein galluoedd sofran milwrol a diogelwch gwladol. Byddwn yn parhau i roi pwysigrwydd dwfn ar y perthnasoedd hyn, a

hefyd ar ymchwil uwch i gysylltedd digidol, er mwyn gwarchod mantais strategol y DU a sicrhau nad yw technolegau newydd yn rhoi diogelwch a chadernid y DU yn y fantol.

15. Mae galluoedd sofran ein hasiantaethau diogelwch a chyfrin-wybodaeth, wedi eu hategu gan oruchwyliaeth a rhagofalon priodol, yn ein cynorthwyo i gadw ar y blaen i'n gwrthwynebwyr ac yn asgwrn cefn ein cydweithrediad â'r Pum Llygad. Gan gydnabod pwysigrwydd yr asiantaethau hyn i'n diogelwch a'n hamddiffyniad, mae'r llywodraeth yn darparu cyllid ychwanegol fel y byddwn, ynghyd â'r cynnydd yn y gwariant ar amddiffyn, yn gwario 2.6% ar amddiffyn o 2027 ymlaen. Byddwn yn ceisio cynnal ac esblygu eu pwerau unigryw, eu ffynonellau data a'u galluoedd i gadw ar y blaen i newidiadau technolegol parhaus.

16. Mae ein gwasanaeth diplomyddol yn ased unigryw mewn byd mwy cystadleuol a thrafodiadol. Mae'n rhwydwaith helaeth o dros 270 o swyddi mewn 180 o wledydd a thiriogaethau drwy'r byd. Mae ganddo arbenigedd a gwybodaeth ddofn i gynorthwyo'r DU i ddylanwadu, gwarchod ei buddiannau a chefnogi ei dinasyddion Prydeinig. Mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi ymyriadau rhyngwladol i herio bygythiadau cyn iddynt gyrraedd ein glannau, gan amddiffyn diogelwch y DU rhag bygythiadau hybrid a chynorthwyo'r DU i weithredu fel partner byd-eang credadwy. Byddwn yn atgyfnerthu'r gallu hanfodol hwn drwy fuddsoddi £290 miliwn yn y galluoedd gorau, gan ddiwygio'r gweithlu a darparu technoleg newydd. Bydd hyn yn cynnwys: gweithlu llai, mwy ystwyth gyda chyfran uwch o staff dramor, y buddsoddiad digidol mwyaf erioed yn ein gwasanaeth tramor, a Choleg Diplomyddiaeth Prydeinig newydd.

17. Mae sectorau celfyddydau, diwylliant, addysg a gwyddoniaeth a thechnoleg y DU yn ffynhonnell bwysig o bŵer meddal. Mae'r asedau hyn yn ein helpu i feithrin enw da'n rhyngwladol, creu ymddiriedaeth a phartneriaethau sy'n cefnogi sefydlogrwydd rhyngwladol. Wrth i wledydd eraill ddatblygu eu pŵer meddal, ni allwn fod yn hunan-fodlon am ein cryfderau traddodiadol. Bydd ein Cyngor Pŵer Meddal newydd yn cynghori'r llywodraeth ar ddefnyddio ein hasedau pŵer meddal yn fwy strategol i gefnogi ein hamcanion diogelwch a pholisi tramor.

18. Mae'r Seiber-Lu Cenedlaethol (NCF) yn gyfrifol am weithredu yn a thrwy seiber-ofod i wrthwynebu a herio'r rhai a allai wneud niwed i'r DU neu ei chynghreiriaid, i gadw'r wlad yn ddiogel a gwarchod a hyrwyddo buddiannau'r DU yn ddomestig a thramor. Mae'r NCF yn defnyddio effeithiau seiber i ecsbloetio dibyniaeth ein gwrthwynebwyr ar dechnoleg ddigidol ac ennill y fantais i'r wlad. Mae'r gallu yma'n hollbwysig. Bydd y NCF yn parhau i gyflawni seiber-weithgareddau cyfrifol, gyda'n partneriaid a chynghreiriaid. Bydd yn ceisio gwarchod rhag bygythiadau gwladwriaeth a diwladwriaeth, hyrwyddo ein polisi tramor a diogelwch gwladol, cefnogi gweithgareddau milwrol ac atal a chanfod troseddu difrifol.

## Adran (3) – Sicrhau mantais dactegol



F-35B a'i adlewyrchiad ar ddec y gludlong HMS Prince of Wales

19. O gofio bod ein cystadleuwyr yn gallu ehangu eu cyrhaeddiad i ennill mantais, byddwn yn ategu ein galluoedd sofran gyda strategaethau anghonfensiynol i ennill mantais arbenigol mewn ecosystem fyd-eang ehangach. Fel rhan o hyn, byddwn hefyd yn miniogi ein ffocws ar y meysydd cystadlu presennol ac yn y dyfodol, o'r Arctig a'r gofod i AI, mewn cydweithrediad â'n cynghreiriaid.

20. Drwy ymrwymo £86 biliwn i ymchwil a datblygu, byddwn yn gyrru arloesi yn ein diwydiannau mwyaf blaengar a buddsoddi mewn technolegau fydd yn ategu ein cystadleurwydd milwrol ac economaidd i'r dyfodol. Mae taer angen ailfeddwl yn sylfaen am berthynas y llywodraeth â chyfalaf preifat yn y meysydd hyn – a'i weld fel un o bileri strategol hanfodol ein diogelwch gwladol. Drwy sefydlu partneriaethau gyda buddsoddwyr a hefyd gyda diwydiant, byddwn yn ceisio sianelu a chyfosod cyfalaf preifat i helpu i gyllido blaenoriaethau strategol. Dylid ystyried modelau cyllido newydd i wneud arloeswyr amddiffyn yn fuddsoddiad mwy deniadol i gyfalaf preifat, lleihau cost cyllid ar gyfer cwmnïau amddiffyn a'i gwneud yn haws i ni gronni cyfalaf gyda'n cynghreiriaid.

21. Ni fydd sicrhau annibyniaeth sofran llwyr o hyd yn bosib pan fo'n dod at dechnolegau arloesol fel AI a chyfrifiadura cwantwm. Byddwn felly'n datblygu lefel sylfaenol o ran galluoedd sofran ac, fel arall, yn cryfhau strategaethau a thactegau anghonfensiynol y DU fel rhan o ecosystem ryngwladol ehangach. Mae AI yn enghraifft o hyn: rydyn ni wedi sefydlu'r Uned AI Sofran a byddwn yn ehangu ein capasiti cyfrifiadura sofran o 20 gwaith o leiaf erbyn 2030. Cyfrifiadura sofran, bron yn sicr, fydd yr elfen leiaf ym mhortffolio cyfrifiadura cyffredinol y DU ond bydd yn ein cynorthwyo i ddyrannu cyfrifiadura

i flaenoriaethau cenedlaethol yn ddiymdroi ac annibynnol. I ategu hyn, byddwn yn cynnal a datblygu'r meysydd yr ydyn ni'n arwain arnynt yn fyd-eang i sicrhau y gallwn wneud cyfraniad blaenllaw at wahanol haenau o'r technolegau allweddol a ddefnyddir yn y cymwysiadau diweddaraf o AI.

22. Mewn cyfnod mwy trafodiadol, a nod o sicrhau dyfnder strategol yn ein cynghreiriau, bydd yn hanfodol i ni godi technoleg i frig ein hagenda ryngwladol. Bydd angen cael mynediad at rai technolegau drwy gytundebau a phartneriaethau cyd-gyfnewidiol gyda phartneriaid o'r un anian, yn enwedig yr UDA. Mae hynny, yn ei dro, yn golygu bod angen i'r DU dyfu galluoedd ategol a hwyluso ymchwil AI ar y cyd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Ar wahân i'r UDA a Tsieina, mae gan y DU un o'r sectorau ymchwil a phreifat ar gyfer technoleg yn y byd.

23. Er mwyn mwyhau ein gwerth i'n cynghreiriaid, byddwn hefyd yn datblygu agenda diogelwch gwladol ar sail twf i rannu arferion gorau, mabwysiadu a pharatoadau a gwydnwch yn erbyn risg. Byddwn yn creu Parthau Twf AI fydd â mynediad ehangach at bŵer a chefnogaeth i ganiatadau cynllunio, er mwyn cyflymu'r broses o ehangu seilwaith AI yn y DU. Bydd y Sefydliad Diogelwch AI (AISI) yn parhau i fod yn ystyllen ganolog fel tîm llywodraeth mwya'r byd ar gyfer diogelwch AI, gan weithio ochr yn ochr â chanolfannau arbenigedd ar draws llywodraeth, yn cynnwys y Ganolfan Seiber-Ddiogelwch Genedlaethol, awdurdod technegol y DU ar seiber-ddiogelwch. Gan recriwtio talent o'r tu allan i'r sector cyhoeddus, mae AISI yn enghraifft wych o symud at ddull seiliedig ar ennill mantais dactegol. Bydd ein hagenda diogelwch gwladol ar gyfer AI yn cynnwys tri philer cyd-atgyfnerthol:

**Parthau Twf AI**

Adeiladu capasiti gwladol gan gynnwys data, ymchwil, talent a rheoleiddio

Datgloi buddsoddiad mewn AI a chefnogi seilwaith drwy wella mynediad at bŵer a chymorth cynllunio

Bydd canolfan ddata 100MW yn cael ei lleoli ar Gampws UKAEA Culham, gydag uchelgais i dyfu i 500MW

**Cyflymu mabwysiadu mewn sectorau allweddol**

Cyflymu mabwysiadu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a hefyd yn ein galluoedd diogelwch ac amddiffyn

Cefnogi twf marchnad sicrwydd AI trydydd parti yn y DU

Cronfa Mabwysiadu AI i hwyluso datblygu'r atebion AI diweddaraf mewn sectorau twf uchel

**Dealltwriaeth uwch o risgiau diogelwch**


Gwella ffydd y cyhoedd, sicrhau mabwysiadu diogel, rheoli aflonyddwch economaidd a datgloi cyfleoedd

Cynnal y Sefydliad Diogelwch AI gan sicrhau ei fod yn parhau i ddenu a chadw'r talentau gorau

Hyrwyddo arweinyddiaeth ac arbenigedd dwfn y NCSC mewn AI yn ein seiber-ddiogelwch i gynorthwyo datblygu ecosystem AI ddiogel yn y DU

24. Yn ogystal â cheisio ennill mantais dactegol mewn AI, byddwn yn chwarae rôl flaenllaw mewn tyfu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau telathrebu, datblygu cymwysiadau newydd ar gyfer deunyddiau uwch, gan gynnwys graffin, ac yn defnyddio technegau bio-weithgynhyrchu i wella ein gwydnwch yn erbyn siociau geo-wleidyddol. Ar yr un pryd, bydd y llywodraeth yn cyflwyno cam nesaf y Rhaglen Technolegau Cwantwm Genedlaethol gan adeiladu ar y buddsoddiad o £121m sydd wedi'i ymrwymo ar gyfer 2025-26. Bydd hyn yn cynnwys gweithio drwy'r Ganolfan Cyfrifiadura Cwantwm Genedlaethol i ddatblygu cyfrifiaduron cwantwm yn gynt a thrwy'r hybiau ymchwil cwantwm i ddatblygu cymwysiadau mewn meysydd fel diagnosteg meddygol a'r

genedlaeth nesaf o dechnolegau mordwyo. Byddwn yn cryfhau ein safle yn y sector lled-ddargludyddion byd-eang, cryfhau ymchwil a galluoedd arbenigol mewn meysydd fel dylunio sglodion, electroneg pŵer, ffotoneg, amleddau radio, ac uwch-becynnu. Drwy fuddsoddi £2.5 biliwn yn y genhedlaeth nesaf o dechnolegau niwclear, byddwn hefyd yn cefnogi'r DU i fanteisio ar botensial Adweithyddion Niwclear Modiwlaidd Bach. A byddwn yn adeiladu ar ddegawdau o brofiad, cryfderau, sgiliau a galluoedd sefydliadol unigryw i roi'r DU yn y sefyllfa orau i fanteisio ar ynni asio a sgîl-dechnolegau gyda chymwysiadau ehangach.




Ffynhonnell: Dadansoddiad o Ddata Clystyrau Arloesi yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ac UKRI Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth. Sylwch: Mae mwy nag un achos yn y map hwn lle mae cwmnïau catapwlt a sefydliadau ymchwil eraill yn rhannu'r un lleoliad

25. Rydyn ni'n cydnabod pa mor bwysig yw aros yn effro ac ymatebol i ddatblygiadau mewn meysydd cystadlu strategol newydd ac ar ddyfod fel yr Arctig a'r Antarctig. Yn yr Arctig, bydd rhaglen ymchwil £81m newydd yr Asiantaeth Arloesi ac Ymchwil Uwch yn creu system rhybuddio'n gynnar ar gyfer trobwyntiau, gan roi data hinsawdd o bwysigrwydd lleol a byd-eang o gwmpas yr Ynys Werdd. Bydd RRS *Sir David Attenborough* yn parhau i gynnal presenoldeb gwyddonol yn yr Antarctig ac yn ein cynorthwyo i ddeall newidiadau amgylcheddol yng Nghefnfor yr Arctig.

26. Yn y degawdau diwethaf, daeth nifer gynyddol o economïau a lluoedd milwrol i ddibynnu mwy ar y gofod ac felly mae'n arena y mae ymgiprys cynyddol amdano gan wledydd. Yn ehangach, daeth actorion sector preifat o gwmpas y byd yn fwy gweithredol yn yr arena hon gan arwain at gynnydd aruthrol mewn lloerennau a'u seilwaith ategol. Gan hynny mae'n hanfodol bod gan y DU weledigaeth glir ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Dylai hyn roi mwy o wydnwch a mantais weithredol i'n galluoedd gofod milwrol a sicrhau bod sector masnachol ffyniannus y DU yn gallu achub ar bob cyfle. Bydd ein perthynas unigryw agos â'r UDA yn ategu ein dull o weithredu ond byddwn hefyd yn chwarae rôl arweiniol mewn datblygu galluoedd a pholisïau NATO ar gyfer y gofod, ynghyd â phartneriaethau gyda'r UE, yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd a llu o bartneriaid eraill. Bydd system Borealis £65 miliwn newydd y Ganolfan Gweithrediadau Gofod Genedlaethol yn rhoi hwb i alluoedd gofod y DU fel y gallwn fonitro a diogelu asedau gofod hollbwysig yn well a mordwyo'r cefnforoedd, monitro'r hinsawdd a darogan y tywydd yn fwy effeithiol.

27. Mae gallu meithrin talent yn ddomestig a'i ddenu o gwmpas y byd yn hanfodol bwysig i'n mantais gymharol. Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn egluro sut y byddwn yn diwygio ein system cymorth sgiliau a chyflogaeth i greu piblinell gref i'n sectorau blaenoriaeth, gan gynnwys mwy o hyfforddiant technoleg a hwb i sgiliau peirianneg, digidol ac amddiffyn. Ar yr un pryd byddwn yn cryfhau sut y cystadlwn am arloeswyr, arbenigwyr ac entrepreneuriaid y byd drwy Dasglu Talentau Byd-Eang, gan ddarparu gwasanaeth concierge ar gyfer y talentau gorau a thrwy symleiddio prosesau fisa. Mae'r Gronfa Talentau Fyd-Eang £54 miliwn newydd yn dangos uchelgais y DU i'n gwneud yn fwy deniadol i dalentau gorau'r byd, ac mae Cymrodoriaethau Byd-Eang Turing AI yn darparu £25m dros sawl blwyddyn i ymchwilwyr tramor greu tîm a chynnal ymchwil AI arloesol mewn sefydliad yn y DU.

28. Er mwyn cadw ein mantais gystadleuol, rhaid i ni ddiogelu ein syniadau a'n technoleg ddiweddaraf rhag ein cystadleuwyr. Drwy ymgyrchoedd ar y cyd gan yr Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol a'r Ganolfan Seiber-Ddiogelwch Genedlaethol, rydyn ni'n gweithio gyda phrifysgolion a diwydiant i leihau ein gwendidau. Rydyn ni hefyd yn rhoi cyngor arbenigol i'r gymuned academaidd drwy'r Tîm Cynghori Cydweithrediad Ymchwil (RCAT). Ers 2022, mae'r tîm hwn wedi rhoi 3500 darn o gyngor i dros 150 o sefydliadau ymchwil gan reoli dros 400 o achosion cymhleth a gweithio i gefnogi sefydliadau gyda'u strategaethau lliniaru risg. Bydd datblygu'r RCAT ymhellach yn cael ei ategu gan gyhoeddi Strategaeth Diogelwch Ymchwil gyntaf y DU fydd yn cyflwyno polisi domestig a rhyngwladol y llywodraeth ar ddiogelwch ymchwil. Byddwn hefyd yn ehangu ein rhaglen cryfhau capasiti ryngwladol ar ddiogelwch ymchwil, gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd y DU i gefnogi ein cynghreiriaid ar draws y byd i ddatblygu systemau R&D domestig diogel a gwydn.


026

# Casgliad

1. Mae NSS 2025 yn pwysleisio ansicrwydd radical y cyd-destun rhyngwladol a'r cynnydd mewn bygythiadau. Ar yr un pryd, mae'n nodi y bydd cyfleoedd sylweddol yn y blynyddoedd i ddod i wella ein diogelwch a'n ffyniant fel gwlad a chofleidio manteision newidiadau technolegol. Y prawf o ran llwyddo neu beidio fydd a allwn ddarparu ein hamcanion craidd sef: gwarchod pobl a Prydain a'n buddiannau, yn ddomestig a thramor; achub ar gyfleoedd i bobl Prydain drwy warchod ein buddiannau gwladol; a gwneud y DU yn gryfach a mwy cystadleuol yn y tymor hir.

2. Mae NSS 2025 yn dangos ein hymrwymiad i wella bywydau pobl Prydain mewn ffyrdd gweladwy. Mae hyn yn golygu cryfhau ein ffiniau ac ymyrryd 'i fyny'r gadwyn' i fynd i'r afael â phla mewnfudo anghyfreithlon. Mae'n golygu defnyddio ein diplomyddiaeth i achub swyddi Prydeinig rhag effaith tariffau a chadw ffatrïoedd a gweithgynhyrchwyr ar agor. Mae'n golygu gwella bywydau miloedd o bersonél milwrol Prydeinig a'u teuluoedd drwy gyllid ychwanegol o dros £1.5 biliwn i drwsio ac adnewyddu tai ar gyfer y lluoedd arfog. Mae'n golygu dosbarthu buddsoddiad amddiffyn ledled y wlad fel bo'n dod yn rhan hanfodol o dwf a chyfle economaidd ar draws pob cornel o'r DU. Mae'n golygu diogelu gweithfeydd dur y DU ar gyfer y dyfodol, neu wneud i ffwrdd â biwrocratiaeth fel bo'r sector preifat yn gallu ffynnu. Mae'n golygu darparu'r diogelwch economaidd a'r seiber-ddiogelwch sy'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau a theuluoedd i fuddsoddi yn y dyfodol.


3. Mae NSS 2025 hefyd yn galw am ymdrech cymdeithas-gyfan i wneud ein gwlad yn gryfach a mwy diogel. Mae'n disgrifio nifer o ffyrdd y bydd angen i ni ddod at ein gilydd, o ymarferion gwydnwch gwladol i fwy o wyliadwriaeth gan y cyhoedd. Mae'r uchelgais yn NSS 2025 yn golygu gofyn i fuddsoddwyr, academia a diwydiant gysoni cyfalaf preifat a chapasiti deallusol i sicrhau ein mantais gystadleuol a'n galluoedd sofran. Mae'n gofyn i'r cyhoedd, busnesau ac academia fabwysiadu arferion seiber-ddiogelwch ac arferion diogelwch ymchwil effeithiol. Mae'n golygu gofyn i'r sector preifat weithio gyda gorfodi'r gyfraith i warchod pobl rhag cynnwys anghyfreithiol a niweidiol ar-lein, a sicrhau bod diogelwch ein pobl yn parhau i fod yn flaenoriaeth i AI. Dyma ydy'r dasg sydd o'n blaenau: byddino'r wlad o blaid achos cyffredin ein diogelwch gwladol.

4. Bydd y blynyddoedd i ddod yn profi'r Deyrnas Unedig. Fel y noda'r Strategaeth Diogelwch Gwladol dro ar ôl tro, mae ein byd wedi'i nodweddu gan ansicrwydd radical. Bydd pa hynt a gymer y byd – a'r penderfyniadau a gymerwn – yn diasbedain drwy'r degawdau. Bydd angen parodrwydd a dewrder i lwyddo, ond dylen ni fod yn obeithiol. Arhoswn yn wlad ddiwyro, yn gyfoethog o ran hanes, gwerthoedd a gallu. Ond yn anad dim, o ran penderfyniad y bobl Brydeinig eu hunain. Wedi'r cwbl, nid oes raid mynd yn ôl yn rhy bell mewn hanes am enghraifft o ymdrech cymdeithas-gyfan, gyda'r cymhelliad o gyd-benderfyniad i gadw'n gilydd yn ddiogel. Gallwn fyddino'r ysbryd hwnnw eto a'i ddefnyddio er mwyn ein diogelwch gwladol ac i ail-adeiladu ein gwlad. A thrwy wneud hynny, gall y Strategaeth Diogelwch Gwladol hon ein tywys. Strategaeth fydd yn sicrhau y gallwn warchod ein gwlad, diogelu ein buddiannau gwladol a chyflwyno newid i bobl Prydain.

Cyfeiriadau ar gyfer y lluniau collage ar y clawr cefn, o'r chwith uchaf, yn glocwedd: 1) Technegydd Peirianneg Seiber-ofod yr RAF yn profi cyfarpar i gefnogi Ymgyrch SHADER. 2) Cwnstabl Heddlu Dinas Llundain. 3) Seremoni raddio Ymgyrch INTERSTORM, lle mae peilotiaid o Wcráin wedi cael eu hyfforddi gan hyfforddwyr Ysgol Hyfforddiant Hedfan Rhif 6 yn RAF Cranwell. Bydd y graddedigion llwyddiannus yn camu ymlaen i ail gam eu hyfforddiant hedfan i baratoi ar gyfer gweithrediadau rheng flaen. 4) Harbwr Belfast © Harland & Wolff. 5) Yr OQC Toshiko Gen 1 yw'r platfform cwantwm cyntaf yn y byd y fod yn barod am fenter drwy Tokyo a Llundain. © OQC




CITY OF LONDON
POLICE




OP INTERSTORM


H & W



E03360428
ISBN 978-1-5286-5722-8